# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 127

GORFFENNAF/AWST 1986


# DIM BUSNES Â BOTHA!



DAETH MILOEDD o bobl o bob rhan o Gymru i Gaerdydd ar ddydd Sadwrn 28 Mehefin i'r brotest Gwrth-Apartheid fwyaf a gynhaliwyd erioed yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfarfod y tu allan i'r Llysoedd Barn, pryd y cafwyd areithiau gan Derek Gregory (N.U.P.E.), David Jenkins (Ysgrifennydd Cyffredinol T.U.C. Cymru), Janet Davies (Plaid Cymru), Y Parchedig. Noel Davies (Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Cymru), Y Parchedig John Morgan (Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig), Carl Johnson (ar ran trigolion lliw Caerdydd) a Hanif Bhamjee (Ysgifennydd Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru.

Yna cafwyd gorymdaith o gwmpas canol y y ddinas cyn ail ymgynnull yng ngerddi Sophia i wrando ar ganeuon a rhagor o areithiau gwrth-apartheid. Cafwyd perfformiad graenus o ganeuon rhyddid Affricanaidd gan Gôr Cochion Caerdydd, a fu'n perfformio mewn protestiadau yn rhai o archfarchnadoedd Caerdydd yn ddiweddar. Ymhlith y siaradwyr oedd Menna Elfyn ar ran Cymdeithas yr Iaith, ac is-lywydd Plaid Cymru, Dafydd Iwan. Diolchodd Hanif Bhamjee i bawb am ddod i'r rali ac apeliodd ar bawb sy'n gwrthwynebu'r drefn yn Ne Affrica i ymrwymo o'r newydd i wneud pob dim yn eu gallu i ddymchwel y drefn atgas sy'n caethiwo ac yn llofruddio trigolion ei famwlad.

---

YMUNWCH YN Y FRWYDR!

Yng Nghymru, trwy wledydd Prydain a'r holl fyd, mae'r Mudiad Gwrth-Apartheid yn ymladd yn erbyn y llywodraeth hiliol sy'n gormesu De Affrica. Ei amcan yw tynnu sylw pobl at y gwirionedd am y wlad honno. Os hoffech ymuno a'r Mudiad Gwrth-Apartheid yng Nghymru ceir ffurflen ymaelodi ar dudalen 8.

Neges yr Archesgob Desmond Tutu i'r rali a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn Mehefin 28:

"Mae ein plant yn marw. Mae ein tir yn llosgi ac yn gwaedu. Galwaf ar i wledydd y byd dorri pob cysylltiad economaidd â'r llywodraeth er mwyn ein helpu i sefydlu De Affrica newydd - gwlad ddemocrataidd, gyfiawn, lle na fydd neb yn dioddef oherwydd lliw ei groen.

Ni allaf dderbyn dadl Mrs. Thatcher mai trigolion du De Affrica fyddai'n dioddef fwya pe torrid pob cysylltiad economaidd. Mae'r duon yn dioddef yn awr. Bum yn gweddio, bum yn pledio am ddegawdau ar i lywodraethau'r Gorllewin, yn enw dynoliaeth, ein cynorthwyo i ddiweddu apartheid. Yn hytrach maent yn ein hatgoffa o ddiwygiadau. Ni ddymunwn llacio'r cadwynau sydd am ein gyddfau, mae'n rhaid eu datod a'u difa. Rhaid i'n dioddefaint ddod i ben. Oni cheir gwaharddiadau economaidd, yna Duw a'n helpo. Oni cheir gwaharddiadau yn awr, mi fydd y dyfodol yn drychinebus.

Roeddwn yn flin i glywed bod Prydain a'r Unol Daleithiau wedi pleidleisio unwaith yn rhagor yn erbyn cynnig yn y Cenhedloedd Unedig yn galw am waharddiadau economaidd.

Mae'r tad Affricanaidd yn gallu esbonio ein cais:

"Aeth pymtheg mlynedd heibio ers i mi glywed yr esboniad y byddai gwaharddiadau yn brifo'r duon am y tro cyntaf. Trueni na fyddent wedi fy mrifo bryd hynny, fel na byddai fy mab yn dioddef yn awr."

Hoffwn ddiolch i'r Mudiad Gwrth-Apartheid am gadw'r frwydr yn erbyn apartheid yn fyw, ac apeliaf ar bob un ohonoch i ddyblu'ch hymdrechion mewn undod â'n pobl."

- Yr Archesgob Desmond Tutu.

# Ficer newydd Dewi Sant

LLAWENYDD I BAWB yw clywed fod y Parchedig F. J. Saunders Davies M.A., ficer Gorseinon yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu wedi derbyn gwahoddiad Bwrdd Nawdd Esgobaeth Llandaf i fywoliaeth Dewi Sant, Caerdydd. Y mae'n frodor o Gwm Gwaun yn yr hen Sir Benfro. Fe'i addysgwyd yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru lle graddiodd mewn Cymraeg a Hebraeg. Aeth wedyn i Goleg Selwyn yng Nghaergrawnt a graddio mewn Diwinyddiaeth. Enillodd ei M.A. yn 1966. Bu yng Ngholeg Mihangel Sant Llandaf yn 1962-3, ac astudiodd ym Mhrifysgol Bonn yn yr Almaen am gyfnod byr. Bu'n gurad yng Nghaergybi, Môn, yn Gaplan yr Eglwys Gadeiriol, ac wedyn yn Rheithor Llanllyfni, Gwynedd o 1969 i 1975. Gwahoddwyd ef i fod yn Ganon Cenhadwr yn Esgobaeth Bangor ac wedyn daeth yn ficer Gorseinon yn 1978. Bu'n Ddeon Gwlad Llwchwr er 1983. Y mae'n briod a dywed mai gweinidogaeth ar y cyd fydd hi. Mae ei wraig, Mrs. Cynthia Davies, wedi'i geni yn Llanddewi Brefi ond wedi byw am gyfnod helaeth ym Mynachlog Ddu. Fe'i haddysgwyd hi yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a graddiodd yn y Gymraeg. Enillodd wedyn radd M.A. Prifysgol Cymru am draethawd ymchwil ac y mae wedi bod yn gwneud amryw ddarnau o waith i'r Cyngor Llyfrau Cymraeg. Y mae'n ddarlledydd - 'achlysurol' medd ei gŵr - ar bynciau crefyddol. Y mae ganddynt ddau o blant, Sion ac Angharad. Croeso mawr iddynt fel teulu i'n plith yng Nghaerdydd.

Y SEFYDLU

Bydd y Cyfarfod Sefydlu ar nos Wener 25 Gorffennaf, dydd Gŵyl Sant Iago yr Apostol am 7.00 p.m.

---

# TU MEWN


A.I.D.S. - ail erthygl Dr. Don Anderson, Arbenigwr Mewn Meddygaeth Gymunedol Awdurdod Iechyd De Morgannwg ar y clefyd marwol. - Tudalen 3.

Miri Majorca - hanes Sian Parry Jones o baradwys y twristiad. - Tudalen 6.

Beth sy'n digwydd ar fryniau Llysfaen? Adroddiad arbennig gyda lluniau gan ohebydd y Dinesydd. - Tudalen 7.

Llythyr o Gwmystwyth - Mered yn ei chael hi'n anodd i dorri cysylltiad â Chaerdydd, ac yn esbonio pam - Tudalen 8.

Trafferthion adolygydd - un o ohebwyr y Dinesydd yn cael ei hunan mewn trybini wrth geisio adolygu drama diweddaraf Gareth Miles. - Tudalen 13.

# GOLYGYDDOL

OCH OCH a naw och gwae ni. Daeth trychineb i'r fei yn fwy na thrychineb Chernobyl a chwalu'r grwp pop Wham. Ymadawodd tim Lloegr â chystadleuaeth Cwpan y Byd. Erbyn y diwedd, nid oedd unrhyw esgusodion na chwynfan gwinglyd yn gallu troi'r cloc yn ôl a chyfeirio'r bêl o gefn y rhwyd yn ôl i law Maradona. Llaw Duw, medd ef, a fu'n gyfrifol am sgorio'r gôl, am hynny nid oes syndod i'r reffari fethu â gweld y peth. Siawns nad coes Duw fodd bynnag a loriodd Maradonna'n glaidd ychydig cyn iddo sgorio, ond rhywbeth mwy solet.

'Moral Draw' oedd barn y gweinidog chwaraeon ar y gêm. Mae hyn siwr o fod yn adrodd cyfrolau am agwedd llywodraeth Thatcher at foesoldeb, heb sôn am ffwtbol. Mae hi fel pe bai'r ethos o hunan-gyfiawnder sy'n diffinio ei gwleidyddiaeth wedi ymledu i fod yn Ysbryd yr Oes.

Cafwyd litani cyson o hunan-gyfiawnder gan gyfryngau Lloegr a ddatblygai'n fwyfwy abswrd wrth fynd ymlaen. Ar y cychwyn, hunan-gyfiawnder ynglŷn â'r tîm. Digon teg, wrth gwrs. Onid yw pob gwlad yn ystyried ei thim a'i chwaraewyr i fod y gorau yn y byd. Wrth gwrs, wrth i bethau ddatblygu, aeth y brolio hwn yn brinach, a chyfeiriwyd yr hunan gyfiawnder at ddiffygion y tîm arall. Wrth i Forocco chwarae'n saff yn erbyn deg dyn Lloegr, fe'u beirniadwyd yn hallt am chwarae fel hyn. Gan nad oedd tim i fod yn falch ohono, lledodd yr hunan gyfiawnder i feysydd eraill cyfagos. Ni fyddai Cyfryngau tra-wych Prydain yn caniatau y fath draed moch o ddarlledu ag a gafwyd gan y Mecsicaniaid. Fyddai reffaris Prydain ddim byth bythoedd yn gwneud camgymeriadau mor elfennol â hyn. Fyddai Prydain fyth yn caniatau i dimau aros yn y fath westai swnllyd a digysur. Fel prawf nad dim ond cyffro'r achlysur oedd yn gyfrifol am yr agwedd hon, ond rhywbeth dyfnach o lawer, llwyddwyd i fod yn hunan-gyfiawn hyd yn oed am gefnogwyr Lloegr am na wnaethon nhw ddim cymryd rhan yn y reiat a ddilynodd buddugoliaeth Mecsico yn y rownd gyntaf.



Ond wedi gemau Gwlad Pwyl a Pharaguay, dychwelodd yr hyfdra a'r brolio i'w priod fan, mawrygu hogia' ni a dilorni'r estroniaid: 'Whoever heard of Paraguay before this World Cup?' holodd un 'arbenigwr'. Byddai Task Force Lloegr yn suddo'r 'Pocket Battleship' hwnnw Maradona. Gung-ho a lawr a fo. Onid Shilton yw gôl-geidwad gorau'r byd? Onid Linneker a Beardsley yw'r ddau 'striker' gorau a droediodd y ddaear? Onid Wilkins oedd Centre Half gorau'r Twrnamaint (er gwaetha'r ffaith iddo gael ei yrru o'r cae am iddo daflu'r bêl at y reffari). Tîm un dyn oedd yr Ariannin.....ac yn y blaen ac yn y blaen.

Ond Maradona (a'r deg dyn arall) aeth â hi. Yng nghanol bloeddio 'Gwarth', aeth gôl dadleuol Geoff Hirst yng ngêm terfynol 1966 yn angof. Mae rhyw ddihareb on'd oes am bobl mewn tai gwydr?

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Medi at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Awst 21.

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.



# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffon: 562816.

GORFFENNAF

10 - 12 Chapter
Brith Gof
Du a Gwyn

11 - Clwb Ifor Bach
Ugain mlwyddiant buddugoliaeth Gwynfor - Dafydd Iwan yn arwain y dathlu.

11 - Cymdeithas Rhieni Glantaf
Noson Gwin a Chaws ac ocsiwn gyda Ray Gravell yn Nhrewallter Fawr, Llancarfan.

12 - Clwb Ifor Bach
Pryd ma' te?

15 & 16 Cymdeithas Ddrama Gymraeg Radur
Cwmni'r Gadwyn
Brad - Saunders Lewis

19 - Clwb Ifor Bach
Louis a'r Rocyrs

25 - Clwb Ifor Bach
Ceffyl Pren

26 - Clwb Ifor Bach
Dawns yr Haf - Geraint Jarman

AWST

2 - Clwb Ifor Bach
John Grindell a'r Grwp

5 - Clwb Ifor Bach
Noson Werin: Mabsant yn diddanu aelodau o grwpiau gwerin o'r Unol Daleithiau sydd ar ymweliad a Chymru.

9 - Clwb Ifor Bach
Derec Brown a'r Racaracwyr

16 - Clwb Ifor Bach
Pererin Trydan

23 - Clwb Ifor Bach
Ray Jones a'i Fand

CASETIAU

GYDA GWYLIAU di-ddiwedd yr haf ar ein gwarthaf, digon o boendod yw canfod rhywbeth i gadw'r plant yn dawel am gyfnod. Mae'r ateb gan gwmni Sain - yr union beth i'w cadw'n ddiddan am orig fechan pan ddaw'r glaw i'w cadw dan do.

Cyhoeddwyd dau gaset newydd yn y gyfres o gasetiau llafar. Fe fydd y caset o'r gyfres "Rwdlan" gan Angharad Tomos yn siwr o ddifyrru'r plant lleiaf. Mari Gwilym sy'n darllen y straeon - Rala Rwdins, Ceridwen, Diffodd yr Haul, a'r Dewin Dwl.

Ac i'r plant hyn, neu hyd yn oed y rhieni sy'n cofio'r clasur yn eu plentyndod, mae na gaset dwbl o'r nofel "Luned Bengoch" gan Elizabeth Watkin Jones. Valmai Jones, Cefin Roberts a Cleif Roberts sy'n darllen y tro hwn.

£2.75 yw pris caset Rwdlan a £4.75 yw Luned Bengoch. Pris bychan i'w dalu am ychydig o heddwch yn ystod y gwyliau.

PRIODAS:

Dymunwn yn dda i Dylan, mab Merfyn a Marian Jones, Lon Werdd, Sain Ffagan a Frances, merch Dr. a Mrs. Louis McHugh, Heol Pencisely, Llandaf. Fe'u priodwyd bnawn Sadwrn 21 Mehefin yn Eglwys Babyddol San Ffransis, Trelai. Gweinyddwyd gan offeiriaid yr Eglwys a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. Dafydd Owen. Ar ol gwyliau yn Kenya bydd Dylan a Frances yn mynd i'w cartref newydd ym Mhen-y-Bont, sy'n fan cyfleus i'r ddau gan fod Dylan yn ddeintydd yn Llansawel, Gorllewin Morgannwg, a Frances yn gweithio gyda'r Western Mail yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw. Mae Marian Jones yn aelod ffyddlon o Gylch Cinio'r Merched a gobaith aelodau'r Cylch yw y byddan nhw'n cael cyfle ym mis Medi i groesawu Valerie, mam Frances, yno unwaith eto i gael hanes y briodas a chip-olwg ar y lluniau.

YMDDEOL:

Dymunwn yn dda i Arwel Hughes ar ei ymddeoliad eleni o fod yn Gyfarwyddwr Cerdd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac ar yr un pryd llongyfarchwn Roy Bohana ar gael ei benodi'n olynydd iddo.


A ydych yn priodi eleni?

Ffotograffiaeth Creadigol gan

**GWENAN**

**CAERDYDD 732233**


Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.


TIM RYGBI CLWB IFOR BACH

Croeso i'r sawl sydd a diddordeb i gysylltu a Gwynfor Davies, 754003 neu Alan Jobbins 623275 i drefnu gem.




Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367

# GWARTHUSO I'R CUMRAEG

DYWED Cyngor Dinas Caerdydd nad yw'n werth chweil i ddarparu ffurflenni dwyieithog yn wyneb y nifer isel o Gymry Cymraeg yng Nghaerdydd. (Dywed sensws 1981 bod 14,712 o Gymry Cymraeg yng Nghaerdydd - 5.7%.)

Yn dilyn cwyn gan y Dinesydd am safon iaith y llythyr cafwyd yr ateb canlynol:

"The standard of Welsh in the letter is poor, and regretably therefore the criticism of the standard of translation is justified.

Mr. Markham, like the vast majority of officers of the City Council, does not himself speak Welsh, and, of course, he is not in a position to judge the competence of the translation. It should be pointed out, however, that the Treasurer has done what he can to reply in Welsh to Mr. Sion and a member of the Treasurer's department has been designated as someone who can provide translation."

**City of Cardiff** | **Dinas Caerdydd**

*City Treasurer:*
J.H. Markham BA, IPFA
City Hall, Cardiff CF1 3ND.
Tel: Cardiff (0222) 822000
Direct Line:

*Trysorydd y Ddinas:*
J.H. Markham BA, IPFA.
Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF1 3ND.
Ffôn: Caerdydd (0222) 822000
Llinell Uniongyrchol: 822475

*Your ref. / Eich cyf.*  *Our ref. / Ein cyf.*  *Date. / Dyddiad* 17 Fed Mehefin, 1986

Annwyl Mr. Siôn,

Mewn ateb i'ch llythyr dyddiedig 3ydd Mehefin. Mae'n rhaid i mi hysbysu i chwi y ffaith bod y Pwyllgor Polisi wedi ystyru ar nifer o achlysyr, y dapariad ffurflennu dwyithog neu yn yr uniaith o Gymraeg.

Mae'r Pwllgor wedi cymryd y golygiad, oherwydd fod na ddim llawer o galw am dogfennau un Gynraeg ac mae hi yn hwylystod costus; am y rhesymau uma na dydyw hi yn cyfiawnhau darparu nhw.

Rwyf wedi penodi eich sylwebedd ynglyn di-dalu eich trethum, ac mae'n rhiad i mi hysbysu i chwi os cymerwch u ffordd yma o weithred, fe fydd rhiad i mi cymryd tarddu o ennill yn ôl.

Yn gywir,

Trysorydd Y Ddinas

Mr. Delwyn Siôn,
41 Coryton Rise,
Egwlys Newydd,
CAERDYDD.

# Y POST YN DAL \ DDADLAU

ERS Y DECHRAU mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi brwydro yn erbyn y Swyddfa Bost yng Nghymru. Mae sawl buddugoliaeth wedi ei hennill yn wyneb gwrthwynebiad 'styfnig y Swyddfa Bost i ddwyieithrwydd. Fel canlyniad mae'r enw "Swyddfa'r Post" a'r geiriau "Post Brenhinol" yn ddigon cyffredin o gwmpas Cymru.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r frwydr yn erbyn y Swyddfa Bost wedi'i chanoli ar Gaerdydd, er bod problemau tra gwahanol ynghlwm wrth yr is-swyddfeydd yn yr ardaloedd mwy Cymraeg eu hiaith. Mae dadleuon y Swyddfa Bost wedi amrywio cryn dipyn wrth iddyn nhw chwilio am esgus i beidio â rhoi gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae rhai ohonyn nhw yn hen fferfrynnau, mae'n anhygoel pa mor aml mae rhaid gwynebu'r un hen ddadleuon, ond mae'na un ddadl newydd sy'n fygythiad enbyd i ddyfodol yr iaith Gymraeg.

Mae'n siwr taw un o'r dadleuon cyntaf erioed a ddefnyddiwyd yn erbyn dwyieithrwydd, neu unrhyw ddefnydd o'r Gymraeg o gwbl, oedd nad oedd galw amdano. Dadl Swyddfa'r Post yn awr yw nad oes galw am Gownteri Cymraeg yng Nghaerdydd. Fe wnaethon nhw ychydig o ymchwil mewn ymdrech i brofi eu pwynt a ddarganfuwyd bod 16% o ddefnyddwyr y Swyddfa Bost ar yr Hayes yn medru'r Gymraeg. Penderfynwyd nad oedd y lleiafrif yma yn lleiafrif digon sylweddol i haeddu darpariaeth arbennig. Mae gennym hefyd restr o 30 o fudiadau sydd wedi datgan y bydden nhw'n defnyddio'r "Cownteri Cymraeg", a deiseb gyda thros 1,000 i enwau arni hi. Er yr holl ystadegau sydd yn profi i'r gwrthwyneb, mae'r Swyddfa Bost yn syrthio yn ôl ar yr hen ddadl ac yn datgan nad oes galw am y gwasanaeth.

Hen ffefryn arall wrth gwrs ydy'r gost. Dwi ddim yn siwr iawn pam mae gwasanaeth Cymraeg yn costio mwy na'r gwasanaeth yn Saesneg. Ydy e'n bosib taw'r gost mae nhw am ei hosgoi ydy'r gost o gyfieithu ffurflenni sydd i fod yn ddwyieithog eisioes? Ymddengys bod Swyddfa'r Post am godi pris stampiau unwaith eto ond nid oes diffyg arian arnyn nhw. Dw i'n deall bod y Swyddfa Bost wedi gwneud elw o £40 miliwn eleni. Yn ôl llefarydd ar ran Cyngor Defnyddwyr y Swyddfa Bost mae nhw'n "gwneud yn dda" ac yn gwneud "mwy a mwy o elw". Maent yn gwneud yr elw ar draul yr iaith Gymraeg. Nawr ydy'r amser i wneud ein safiad. Nawr ydy'r amser i fynnu gwasanaeth yn ein hiaith ein hunain yn ein gwlad ein hunain.

Esgusodion di-nod a diniwed ydy'r rhain. Ond yn sgîl penderfyniad Tribiwnlys Bae Colwyn, mae'r Swyddfa Bost yn defnyddio'r cyfreithiau hiliaeth fel esgus i wrthod gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae hyn yn esgus newydd ac yn un difrifol dros ben. Dadleuai'r Swyddfa Bost nad oes modd iddyn nhw hysbysebu am staff sydd yn siarad Cymraeg heb iddyn nhw dorri'r gyfraith. Byddai hynny yn esgus wych i bob cwmni a chyngor pa bai'r peth yn wir, ond cam ddefnyddio'r gyfraith y mae'r Swyddfa Bost. Mae'r Comisiwn Hiliaeth ei hun wedi datgan "bod modd gwahaniaethu lle mae hyn yn anghenrheidiol i'r gwaith mae eisiau ei wneud". Ymddengys felly ei bod hi'n hollol gyfreithlon i hysbysebu am staff sydd yn siarad Cymraeg i weithio ym myd darlledu, addysg ac wrth Gownteri Cymraeg. Efallai byddai gofyn am "Gymry" ychydig yn wahanol ond wedyn nid "Cymry" sydd eisiau dim ond pobl sydd yn siarad Cymraeg.

Ansicrwydd ynglyn â'r Gymraeg a'r gyfraith sydd yn caniatau i'r Swyddfa Bost ymddwyn yn y ffordd mae nhw. Byddai Deddf Iaith Newydd yn cael gwared o'r ansicrwydd ac, ar yr un pryd, cael gwared o un o esgusodion y Swyddfa Bost. Un enghraifft yn unig ydy hwn o'r ffordd y gall Deddf Iaith Newydd sicrhau ddyfodol gwell i'n hiaith. Rwy'n siwr bod gan bobl Caerdydd enhgraifftiau di-ri o'r angen am Ddeddf Iaith Newydd. Gobeithiwn gael trafodaeth ar rain mewn cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod mis Gorffenaf ac wedyn ym mis Medi. Cynhelir cyfarfodydd yn Y Rhath (7 Gorffennaf), Rhiwbeina (14 Gorffennaf), Llandaf (21 Gorffennaf) a'r Barri 28 Gorffennaf). Croeso i bawb.

Steffan Webb,
Trefnydd y De, C.Y.I.G.

# HI FI YN GYMRAEG I HI, FI A CHI

YN DDIWEDDAR cafodd aelod o bwyllgor y Dinesydd drafferth wrth geisio prynu nwyddau yn siop hi-fi Laskys yng nghanolfan Dewi Sant. Yr un hen stori - gwrthod derbyn siec yn Gymraeg fel tal am recordydd tap. Gofynnwyd iddi ysgrifennu'r rhifau yn Saesneg o dan y geiriau Cymraeg, ond yn ol ei harfer, gwrthododd. Yna gofynnodd am weld y rheolwr, ac aeth pethau o ddrwg i waeth. Dywedodd e y byddai'n mynd a'r nwyddau oddiwrthi pe na bae yn ysgrifennu'r siec yn Saesneg. A dyana ddigwyddodd. Ond goleuni ar ben y twnel. Ar ol anfon llythyr at bencadlys cwmni Laskys yn Llundain, wele ateb gyda throad y post:

"Naturally I was most con erned to read of the problems you have experienced with our Cardiff branch ragarding the attempted purchase of goods and your request for payment to be made in Welsh and the subsequent refusal.

After taking further advice on this matter I understand that our branch at Cardiff were in fact wrong in not accepting this and I would assure you that arrangements are in hand for a comprehensive list of numbers and words in Welsh is currently being made in order that this type of incident does not re-occur. I would also like to thank you for bringing this matter to our attention and would also apologise for the obvious inconvenience this has caused."

Felly, ddarllenwyr y Dinesydd. Cofiwch ysgrifennu sieciau Cymraeg os byth y byddwch yn prynu yn Laskys. Fe ddylen nhw eu derbyn heb rwgnach na gwneud stwr. Mae'r bennod hon yn dangos, efallai mai llythyr cwrtais at adran bersonnel, neu adran cysylltiadau cwsmeriaid y cwmni, yw'r ateb i'r broblem oesol. Ond brysied y dydd pan ddaw Deddf Iaith newydd fel an bydd rhaid i ni ysgrifennu, codi twrw, brwydro ac ymladd er mwyn gallu talu am nwyddau yn y Gymraeg.

# LLYTHYRAU

11 Stryd Llochaber
Y Rhath
Caerdydd

Annwyl Dinesydd

Ysgrifennaf ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Rhanbarth Morgannwg-Gwent.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Cymdeithas yr Iaith wedi cael y fraint o weithio ar y cyd gyda'r Mudiad Gwrth-Apartheid yng Nghymru. Yn ddiweddar mae'r cydweithrediad hwn wedi dod i'r golwg wrth i ni gyhoeddi record, gyda chyfraniad gan sawl grwp pop Cymraeg eu hiaith, mewn ymdrech i dynnu sylw pobl ifanc yng Nghymru at y sefyllfa drychinebus sy'n bodoli yn Ne Affrica ac hefyd codi arian i'r ddau fudiad.

Y mae'r awdurdodau adweithiol yn Ne Affrica wedi ymdrechu i ddefnyddio pobl Cymru er mwyn chwalu'r boicot o Apartheid. Dim ond un enghraifft o'r ffordd y mae Cymru, fel gwlad ag identiti a diwylliant arbennig, yn cael ei defnyddio yn hollol fwriadol er lles Apartheid yn Ne Affrica ydy ymweliad Côr y Jonesiaid a'r wlad honno. Y mae safiad Undeb Rygbi Cymru, a'r holl glybiau a chwaraewyr sydd yn perthyn iddo fe, yn sarhad arnom fel cenedl.

Ein gwaith ni fel Cymdeithas fydd ymladd yn erbyn y rhannau o'r sefydliad Cymreig sy'n uniaethu eu hunain â De Affrica. Byddwn yn parhau i weithio yn erbyn y gefnogaeth i Apartheid yng Nghymru trwy ddulliau gwleidyddol, diwylliannol ac, ar waethaf ein trafferthion ariannol ein hunain, yn ariannol.

Yr eiddoch yn gywir,
Steffan Webb
Trefnydd y De, C.Y.I.G.

---

Ysgol y Dderwen,
Caerfyrddin.

Annwyl ddarllenydd.

Mae cyn ddisgyblion Ysgol y Dderwen Caerfyrddin yn byw ym mhob rhan o Gymru erbyn hyn ac rwy'n siwr fe fyddan nhw'n llawen iawn i glywed bod adeilad newydd sbon wedi ei godi ar hen safle'r ysgol a bod 265 o blant ar gofrestr yr ysgol.

Fe agorir yr ysgol newydd yn swyddogol ar Orffennaf 1af 1986 ac i ddathlu'r achlysur cyhoeddwyd llyfr ar hanes yr ysgol. Teitl y llyfr yw "O'r Fesen Derwen a Dyf", ac mae'n llawn o hanesion diddorol am yr ysgol o 1955 i 1985. Mae bron hanner cant o luniau o'r gwahanol gyfnodau yn gyfrol ac mae'n werth ei phrynnu. Pris y gyfrol yw £3.

Gan ma nifer cyfyngedig o lyfrau sydd wedi eu hargraffu gwell fydd ichi gysylltu ar unwaith â'r ysgol er mwyn sicrhau eich copi. Anfonwch at Y Prifathro, Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin. (Caerfyrddin 235598)

Yn eiddich yn gywir iawn,
Wyn Davies,
(Cadeirydd y Pwyllgor Rhieni)

---

Annwyl Ddarllenydd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi fy nghomisiynu i wneud arolwg o'r holl gylchgronau sy'n derbyn nawdd ganddo - A5, Anglo Welsh Review, Barddas, Barn, Y Casglwr, Y Faner, Llafur, Poetry Wales, The Powys Review, Planet, Taliesin, Y Traethodydd, Envoi, Frames, Momentum, The Journal of Welsh Ecclesiastical History. Bydd y gwaith yn gyfraniad i ymchwiliad ehangach i'r byd cyhoeddi yng Nghymru sydd i'w gynnal yn y dyfodol agos.

Bwriad yr arolwg fydd mesur ym mhob achos effeithiolrwydd ac addasrwydd cefnogaeth y Cyngor ac ystyried dulliau newydd o gynorthwyo pob cylchgrawn i gyrraedd ei nod ac i ennill y nifer mwyaf posibl o ddarllenwyr. Mae rhychwant yr arolwg felly yn eang ac yn agored iawn, ac ymdrechaf i dalu sylw teg i bob agwedd o gyhoeddi cylchgronau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch gwahodd fel darllenwyr Y Dinesydd i gyfrannu i'r arolwg trwy anfon eich sylwadau ar unrhyw un neu ragor o'r cylchgronau noddedig, neu ar yr hyn yr hoffech ei weld yn digwydd ym myd y cylchgronau. Gall eich sylwadau fod mor gryno neu mor faith ag yr hoffech - croesawaf bob cyfraniad. Os oes gennych gwynion, sylwadau neu syniadau, rhowch ben ar bapur ac anfonwch air ataf i'r cyfeiriad isod:

Arolwg Cylchgronau
Cyngor Celfyddydau Cymru
Stryd yr Amgueddfa
Caerdydd
CF1 3NX

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich llythyrau a diolchaf rhag blaen am eich cymorth a'ch cydweithrediad.

Yn gywir
Rhodri Williams.

---

Tŷ'r Cymry
11 Heol Gordon

Clwb Tŷ'r Cymry

Annwyl Dinesydd

Erbyn hyn fe gyfranwyd mwy na thri chant o bunnau i Gronfa Gynnal y flwyddyn Jiwbili. Penderfynwyd cadw'r gronfa ar agor er mwyn rhoi'r cyfle i ragor o gyfeillion nodi hanner can mlwyddiant Tŷ'r Cymry trwy gyfrannu.

Trefnwyd gwibdaith haf i lecyn hynafol yn Nhir Iarll ar y nawfed o fis Gorffennaf. Yn ogystal, mae'r swyddogion yn trefnu ar gyfer y Cinio Dathlu ar nos Wener Medi 26 yng Ngwesty'r Parc, Caerdydd.

---

Annwyl Dinesydd

Ar benwythnos Gorffennaf 18-20 eleni, cynhelir WIGWAM '86 yn Fferm Tŷ Du, Parc, Y Bala. Gŵyl Gristnogol yw WIGWAM ac eleni fydd yr ail flwyddyn iddi gael ei chynnal.

Mae'r Ŵyl yn rhoi cyfle i gael tipyn o hwyl, i ddysgu ac i addoli, ac mae croeso i rai o bob oed. Cawn dipyn o hwyl ar y nos Wener gyda Noson Lawen a Thwmpath Dawns a chyfle i bawb ddod i nabod ei gilydd. Drwy'r dydd Sadwrn, wedi cychwyn gyda Mawl a Gweddi, bydd yna ddewis o weithgareddau mewn tair gwahanol pabell. Mae'r amrywiaeth yn cynnig y cyfle i ddysgu ynglyn â'r bywyd Cristnogol (e.e. y Prifathro R.Tudur Jones ar "Y Cristion - Halen neu Bupur?"), agweddau at broblemau cyfoes (e.e. diweithdra, alcohol a chyffuriau) dysgu am Addoliad (gyda'r Parch. Gwilym Ceiriog Evans) a defnydd o gerddoriaeth, drama a dawns, ynghyd â nifer o bynciau eraill.

Bydd digon o bethau i'r plant hefyd gydag oriau arbennig ar eu cyfer gyda gemau a phob math o bethau eraill, a thrwy gydol y penwythnos bydd gwahanol gymdeithasau a mudiadau a stondidau ar agor.

Pan ddaw nos Sadwrn, bydd y tempo yn newid eto gyda Drama a Chyngerdd Roc, ac i'r rhai fydd â digon o egni, fideos yn cael eu chwarae yn un o'r pebyll hyd oriau mân y bore. Ar y bore Sul bydd uchafbwynt yr Ŵyl, sef yr Addoliad, lle y gobeithiwn y bydd popeth a ddysgwyd gennym yn ein cynorthwyo i droi at Dduw i'w foli Ef.

Diolch i chwi am ganiatau gofod i ni roi blas o'r Wyl ac i estyn gwahoddiad - croeso cynnes i bawb a fyn ddod. Bydd Maes Pebyll a Charafannau ar dir Fferm Tŷ Du ar gyfer y penwythnos, a bydd meithrinfa argael i famau a'u babanod. Mae e'n costio cofiwch, ond dim llawer - £8 am docyn penwythnos a £5 am docyn dydd. Ond am ragor o fanylion, cysylltwch ag Emlyn a Lowri Dole yn Neuadd Carmel, Pontlliw, Gorllewin Morgannwg neu Susan Rice-Hughes, 30 Rhes Tan Graig, Glanadda, Bangor.

Pob Bendith
Trefnwyr WIGWAM 86.

---

# LLWYDDIANT GLANTAF

FE GOFIR Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Ogwen a'r Cylch am ei thrafferthion, a'r modd y bu i'r gwirfoddolwyr brwd eu goresgyn a rhoi inni chwip o Steddfod - o ran cystadlu, a'r gwynt a'r glaw! Ni adlewyrchwyd streic yr athrawon yn safon y cystadlu - roedd cystal sglein ac arfer ar bopeth o'r llwyfan, fel y mae canlyniadau Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn tystio. Llongyfarchiadau i'r pentre lleiaf erioed i wahodd Eisteddfod yr Urdd ar eu llwyddiant yn erbyn pob anhawster posib.

Canlyniadau Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Unawd Pres dan 15
Richard de Lloyd - Corn Ffrengig
- yr ail wobr

Unawd Piano dan 15
Huw Harris - y wobr gyntaf

Unawd Lleisiol
Andrew Williams - y wobr gyntaf

Deuawd dan 15
Nia Lloyd ac Andrew Williams
- y drydedd wobr

Ensemble offerynnol dan 15
Band Pres Glantaf - y wobr gyntaf

Ensemble offerynnol dan 15
Grwp Llinynnol a chwythbrennau
- y drydedd wobr

Côr Bechgyn dan 15 - yr ail wobr

Côr Merched dan 15 - y drydedd wobr

Deuawd piano dan 15
Non Gwilym a Huw Harris - y wobr gyntaf

Côr dan 15 - yr ail wobr

Ennillodd yr Ysgol y gwpan am yr ysgol orau ar y llwyfan dan 15 oed.

Côr Cymysg dros 15 - y wobr gyntaf

Côr Merched dros 15 - y wobr gyntaf

Côr Meibion dros 15 - y wobr gyntaf

Parti Merched dros 15 - yr ail wobr

Unawd Chwythbrennau dros 15
Owen Saer - Clarinet - y wobr gyntaf

Unawd lleisiol dros 15
Jeremy Williams - yr ail wobr

Cwpan i'r ysgol uchaf ei marciau ar y llwyfan - Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

# Colofn Shân Emlyn



DYMA FI FORA Sul y Tadau yn mynd ati i feddwl am beth i sôn amdano yn fy ngholofn y tro yma. Fyddwn ni fel teulu byth yn talu sylw i'r achlysur. Wedi'r cyfan y mae pob Sul yn Sul y Tadau yma, gan mai ei ginio Sul yw uchafbwynt pob wythnos i Dad y tŷ yma! Yn ffodus y mae un neu'r ddwy ferch a'u cariadon efo ni bron bob Sul, a'r gegin yn ferw o fwyd, sgwrsio a chwerthin. Achlysur swnllyd iawn yw cinio Sul yma.

Bore 'ma cefais baned yn y gwely a chip ar y papurau. Darllen erthygl yn un ohonynt, ysgogodd fi i fynd ati i lunio'r golofn hon. Gwraig yn sôn yn atgofus am ei thad, a'm harwain innau i'r un perwyl. Fel y rhan fwyaf o ferched, credaf imi gael Tad go sbesial. Dyn nobl rhadlon oedd Dada, rhamantus, hael a chwbwl anymarferol - bler a diog fyddai barn rhai! Ond ef a ddeuai hiwmor a hwyl i'r aelwyd.

Ni freintiwyd ef â llwyddiant materol, ond dymunai fyw fel lord. Gofynnai i mi a'm brawd a'm chwaer bob pnawn Sadwrn cyn canlyniadau'r pyllau pêl droed be garem ei gael - a minnau'n ateb - beic, ceffyl, dillad newydd .... a tua'r pump o'r gloch 'ma fe ddwedai "Ddoth hi ddim y tro yma, taswn i'n medru mi gaech y cyfan". Un o atgofion anwyla'r plant ohonof yw'r atgo bob tro y deuai Taid i Goed y Pry y byddai'n gwagio'i boced o'i holl newid mân a'i roi i Elin a Mari.

Soniais ei fod yn anymarferol - chwaraeai drombon gan ymarfer yn yr atic, a ninnau'n tri yn gweiddi "Iesu Tirion", "Mi welais Jac y Do" ac ati ac yntau'n ymateb i bob cais. O dro i dro, byddai angen iro'r trombon i'w ystwytho - fe wnai Vaseline y tro yn iawn, ond ddim i'r "Hen Em" fel y cyfeiriai fy mam ato. Na, fe ai allan a phrynu Yardley's Night Cream, i fy mam, a defnyddio'r rhan fwyaf ohono i iro'r trombon. Fel dwedodd perthynas pell iddo ar ôl iddo yr anfwriadol ei hanwybyddu rhyw dro "Gwr mawr ar y diawl ydy Emlyn".

Un stori sy'n adlewyrchu'i hiwmor ydy'r drafodaeth fawr fu unwaith ar pa liw i baentio'r tŷ. I dorri'r ddadl, fe groesodd y stryd i dŷ'r cymdogion cyferbyn a dweud "Mae isio paentio'r tŷ 'cw, chi sy'n i weld o, pa liw fasa chi'n lecio?"! Ynghanol y digrifwch fe gefais sawl cyngor sydd wedi bod yn gefn i mi. Yn nyddiau cynnar ein priodas, ac Owen a minnau ar adegau yn ffraeo fel ci a chath, fe ddwelai "Da chi, peidiwch â wastio amsar prin, yn ffraeo am bethau dibwys, mae bywyd yn llawar rhy fyr."

Cyngor arall "Paid â phoeni, gwastraff ynni ydy poeni, taswn i yn un am boeni, mi faswn i yn fy medd ers tro."

Gallwn fynd ymlaen ac ymlaen - digon o atgofion hapus i lenwi cyfrol, ond rhaid ymatal. Pam, medda chi y ces i baned yn y gwely bor 'ma? Roedd hi wedi hanner nos arnom yn cyrraedd adre neithiwr ar ôl teithio mewn fan wedi'i llogi, yn llawn o ddodrefn i'r tŷ y mae Mari'n byw ynddo yn Y Felinheli. A dyna ni - tad arall yn bustachu ac yn chwysu chwartiau yn llwytho'r fan, i gyrru ar draws Cymru, ei dadlwytho a chartio'r cyfan drwy a rownd cornelau cyfan i'r tŷ. Wedi llwyddo i gael y "three piece", ystafell fyw Mari - ma ledi yn dweud nad oedd hi eisiau un o'r cadeiriau a'i bod wedi trefnu i'w rhoi i'w chwaer. Nôl â'r gadair i'r fan. Wedi teithio ar draws Cymru yn ôl i Gaerdydd - a gorfod cario dŵr a stopio bob hyn a hyn i ddisychedu'r injian, rhaid oedd mynd â'r gadair i dŷ Elin, a hynny gefn nos erbyn hyn. Y tad bodlon, unwaith eto yn bustachu a chwysu, ac yn hiraethu am Grwndi a oedd yn feddw gaib ar ôl cael tabled i'w lonyddu ar y daith. Y mae'n ofni mai byr fydd ei hoedel yng ngwlad bysus Crosville a'r Fenai diawd.

Siawns gen i na all hanes ail adrodd ei hun, ac mai atgofion hapus fel fy rhai i fydd gan Elin a Mari am eu tad. Mi fasa'n plesio'i mham nhw hefyd pe bae gan un neu'r ddwy ohonynt golofn mewn papur rhyw fro rhyw ddydd. Pwy ŵyr ynte!

---

# Medd y Meddyg

DIOLCH I DDUW am y Dinesydd. O'r diwedd mae gen i lwyfan i wadu'r sylwadau a briodolwyd i mi yn y wasg yn ddiweddar. Ni ddywedais erioed bod y nifer o achosion lleol o A.I.D.S. wedi treblu gyda'r darganfyddiad o 15 o gleifion newydd. Ni ddywedais chwaith mai'r achosion hyn oedd "tip of the iceberg" gyda channoedd rhagor o achosion eto heb eu darganfod yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Yr hyn a ddywedais oedd fod prawf gwaed rhad sy'n adnabod gwrthgorffynnau yng ngwaed pobl sy'n cael eu heintio gan firws HTLV III wedi'i gyflwyno ym mis Hydref y llynedd. Darganfuwyd nifer o ganlyniadau cadarnhaol yn lleol. Nid yw hyn yn golygu eu bod yn "achosion" o A.I.D.S. - yn yr un modd nad yw'r sawl a frechwyd sy'n cario gwrthgorffyn rhag y frech ddim yn dioddef o'r frech.

Pan oedd brechu rhag y frech yn arferol, roedd nifer bychan o'r rhai a frechwyd yn datblygu cyflwr a adnabuwyd fel "Vaccinia", ond arhosodd y mwyafrif helaeth yn holliach. Mae'r sefyllfa gyda'r firws HTLV III yn debyg iawn. Dim ond tua 10% o'r rhai a heintir fydd yn mynd ymlaen i ddatblygu'r "Aquired Immune Deficiency Syndrome". Erys y gweddill yn holliach.

Wedi dweud hynny mae yna un gwahaniaeth arwyddocaol rhwng brechiad rhag y frech ag heintiad HTLV III, yn gymaint â bod rhaid ystyried y sawl sy'n ymateb yn gadarnhaol i brawf gwrthgorffyn HTLV III yn gludwr y firws hyd nes y gwellir y dulliau profi. Ni olyga hyn bod yn rhaid eu trin fel gwahanglwyfion. Yn wir gallant gymysgu mewn dull cwbl arferol â'u cysylltiadau cymdeithasol er y dylent newid eu harferion rhywiol neu unrhyw ddefnydd o gyffuriau.

Amcangyfrifa'r llywodraeth bod cynnifer â 50,000 neu 100,000 o bobl ym Mhrydain sy'n cario'r firws HTLV III, ac mae'n rhesymol felly i dybio bod rhai cannoedd o'r rhain yng Nghymru. Dyna oedd fy nghyfeiriad at "tip of the iceberg." Ond rhaid pwysleisio eto mai dim ond 10% sy'n debygol o ddatblygu'n "achosion" o A.I.D.S.



City's 15 new AIDS carriers 'just tip of iceberg'

By MARK O'CALLAGHAN

**FIFTEEN NEW AIDS carriers have been traced since Cardiff set up a free blood-testing service in October, and the figure is just the tip of the iceberg, according to a medical expert.**

Dr Donald Anderson, South Glamorgan Health Authority's specialist in community medicine responsible for health promotions, revealed yesterday that there were probably hundreds of AIDS carriers in the city.

The full AIDS — Acquired Immune Deficiency Syndrome — condition involves a complete breakdown of the immunity defences which leads to death within a few years.

But Dr Anderson, who described Cardiff as one of the provincial Mecca's of the homosexual community, said there was no need for alarm because only about one in 10 AIDS carriers developed the full AIDS condition.

POTENTIAL

He said it was a difficult virus to catch, usually being passed on primarily through homosexual intercourse, through drug addicts sharing needles

Un o'r problemau sy'n wynebu'r awdurdodau iechyd a'r cyrff eraill sy'n ceisio lledaenu gwybodaeth am A.I.D.S yw'r dull y mae'r wasg a'r cyfryngau yn ymdrin â'r mater. Tueddir i symleiddio, i or-ddweud ac i chwilio am benawdau bras. Dyma bennawd y "Western Mail".

---

Pe baech yn meddwl eich bod mewn perygl o fod wedi dal A.I.D.S. a fyddech yn ceisio cael prawf gwaed? Cofiwch, nid yw'r prawf yn un diagnostig o "Aquired Immune Deficiency Syndrome". Yr unig beth a wna yw arddangos cysylltiad blaenorol a'r firws, ond os yw'r canlyniad yn gadarnhaol gall fod yn flynyddoedd lawer cyn i chi wybod a ydych yn un o'r 10% anffodus sy'n mynd i ddioddef o'r clefyd marwol. Mae'r poendod meddwl wedi gyrru rhai i hunanladdiad tra bo eraill wedi dewis penrhyddid rhywiol gan ymgymryd yn benchwiban â nifer helaeth o weithgareddau rhywiol ar y sail ei fod yn rhy hwyr i gymryd gofal. Ond dychmygwch yr hafoc a achosir ganddynt trwy ledu'r haint ymhellach.

Ystyriwch hefyd effaith canlyniad cadarnhaol ar geisiadau am yswiriant a morgeisi. Mae cadw gwybodaeth am ganlyniad cadarnhaol yn ôl yn gallu gwneud cais yn annilys, ond cyfaddefwch i'r peth a does neb am eich adnabod.

Ni ddylid ymgymryd â'r prawf yn ysgafn ac mae cynghori gofalus yn angenrheidiol i geisio asesu'r manteision a'r anfanteision.

Hyd yma nid oes iachad i A.I.D.S., ac nid oes brechlyn chwaith ar y gorwel eto felly RHAID rheoli'r epidemig trwy newidiadau mewn arferion byw. Mae'r sawl sy'n gaeth i gyffuriau ac yn rhannu nodwyddau yn broblem enfawr oherwydd mae eu "ffics" yn fwy pwysig iddyn nhw na'r perygl o ledu'r haint. Ond rhaid canmol y gymuned hoyw. Mae'r ffaith iddynt osgoi clinigau trallwyso gwaed a'r dystiolaeth wirioneddol eu bod yn newid eu technagau caru yn glod i'w ymwybyddiaeth o'u dyletswydd a'u cyfrifoldeb i gymdeithas. Y dull mwyaf cyffredin o bell ffordd o ledu'r firws HTLV III yw trwy i'r partner gweithgareddol ei drosglwyddo i'r partner goddefol wrth gyfathrachu drwy'r pen ôl. Lledir yr haint ymhellach wrth i bartner goddefol heddiw droi'n bartner gweithgareddol yfory. Neges y cyngor ynghylch technegau rhywiol yw i geisio cymell cyfyngu ar y nifer o bartneriaid rhywiol, i rybuddio yn erbyn gweithgaredd geneuol/cenhedlol, gan argymell defnyddio condom os ymgymerir â chyfathrach drwy'r pen ôl, ac i rybuddio'r gymuned anghyfunrhyw o beryglon ymddygiad cyfunrhywiol. Ond, wedi'r holl argymhellion da, does ond un argymhelliad allweddol i fygythiad A.I.D.S. Mae'n apêl plaen i bob gwrwgydiwr i "gadw'r drws cefn ar gau"!

# Arddangosfeydd
## MEHEFIN

YR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

Y Prif Adeilad Parc Cathays
Gweithgareddau i Blant
21 Gorffennaf - 29 Awst
(ar wahan i bob dydd Sadwrn, Suliau a Gwyliau Banc).
Gweithgareddau anffurfiol i blant 7 - 13 mlwydd oed rhwng 10.00 y bore a 4.00 y prynhawn. Ceir holiaduron a thaflenni gwaith yn seiliedig ar wrthrychau yn yr orielau, ynghyd a chreonau, stoliau a byrddau yn rhad ac am ddim.
Ymhlith y gweithgareddau cyfle i wneud rhwbiadau pres.

Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth.
Celf Cyfoes Newydd - yn parhau tan 27 Gorffennaf (gweler rhifyn Mehefin).

Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru
Heol Bute, Caerdydd.
Celf ar Waith 15 Gorffennaf - 15 Awst.
Arddangosfa o waith Erica Daborn.
Defnyddiodd yr artist gyfrwng traddodiadol i ymchwilio ac i ddarlunio amgylchedd anghyfarwydd technoleg newydd, yng ngwaith Control Data Cyf., Xidex (U.K.) Cyf. yn awr lle gwneir teipiau magnetig a disgiau ar gyfer cyfrifiaduron. Cyfle i weld canlyniad arhosiad yr artist am gyfnod o dri mis yn y ffatri.

ORIEL
Heol Siarl
Hideo Puruta, Jaqueline Kirsten, Jill Osbourne, Julian Schwary - Artistiaid Preswyl
28 Mehefin - 2 Awst
Y mae'r pedwar artist yma yn wahanol iawn i'w gilydd. Yr un peth sy'n gyffredin yn y cyswllt yma i'w fod pob un wedi cael cyfnod yn ddiweddar fel artist breswyl mewn gwahanol fannau yng Nghymru, er enghraifft, Neuadd Dewi Sant, Llyfrgell Elai, ac mewn ysgolion Llandrindod, Bargoed, Caerffili, a Llanfair-ym-Muallt.

---

CHAPTER
Heol y Farchnad, Treganna.

Y Brif Oriel (ar agor bob diwrnod gwaith 12.00 - 5.00 a 7.00 - 10.00).
Maria Chevska a Ineke Van Der Wal - Paentiadau a Lluniadau
28 Mehefin - 26 Gorffennaf.



"In the Raven" gan Maria Chevska

Yr All Oriel
Artistiad Chapter
Peintiadau, Cerfluniau a Cheramigiau
28 Mehefin - 26 Gorffennaf
Dangosir gwaith wyth o'r pymtheg artist sydd â'u stiwdios a gweithdai yn Chapter. Onibai am gyfleusterau'r Chapter, gweithio yn unigol ac o dan anfantais byddai'r artistiaid. Byddant yn derbyn cymorth ac ysbrydoliaeth wrth gydweithio yn yr un man.



Kate Reynolds wrth ei gwaith. Mae hi'n un o'r pymtheg o artistiaid preswyl a ymgartrefodd yn stiwdios Chapter - bydd gwaith wyth ohonynt i'w weld yn yr arddangosfa.

---

FFOTOGALLERY
Heol Siarl
Tir - lluniau gan Fay Goodwin
16 Gorffennaf - 16 Awst

Dros gant o luniau gan un o'r goreuon am dynnu llun o'r tirlun Brydeinig. Mannau a welwch yn yr arddangosfeydd yn cynnys Cymru, y Pennines, Ynysoedd Orkney, a rhannau o dde Lloegr.

---

# SIÂN 'GLOBAL'

WYDDOCH CHI sut mae'r Sais yn sôn am "busman's holiday"? Wel, mae'n siwr taw dyna sut fydd hi i fi y tro nesa' af i ar fy ngwyliau. Oherwydd dyma fi yn wythnosau cyntaf fy swydd newydd fel "Rep" efo cwmni gwylaiu Global yma ar ynys Mallorca.

Mae'n fywyd braf, heb os, ond ymhell o fod yn fywyd hawdd - mae rhai wedi rhoi'r gorau iddi yn barod ar ôl ychydig wythnosau, wedi'u siomi gan nad yw bywyd Rep cweit gymaint o wyliau ag oedden nhw'n ei ddisgwyl, ond, yn bersonol, dwi wrth fy modd yn y gwaith.

Dwi'n byw a gweithio mewn pentre bach tawel o'r enw Portals Novs ("Cei Newydd""!) sy' tua pum milltir y tu fas i Palma, prifddinas Mallorca. Mae Palma yn syndod i'r ymwelydd newydd: tua'r un maint a Chaerdydd o ran poblogaeth, ac yn borthladd hefyd, ond i fod yn onest mae'n rhoi'r argraff o fod yn llawer mwy pwysig a phrysur na Chaerdydd. Am un peth mae Eglwys Gadeiriol anferthol Palma yn gwneud i Eglwys Gadeiriol Llandaf edrych fel capel bach yn y wlad. Mae'r adeilad bendigedig yma yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif, ac mae ei safle croesawgar ar lan y môr yn denu ymwelwyr o bob rhan o'r ddinas - amhosibl dod i Palma a'i cholli! Ac mae'n werth gwneud ymdrech i ddod i'w gweld o unrhyw ran arall o'r ynys o ran hynny!

Heblaw am hynny, mae gan Palma gymdeithas busnes a marchnata gyfoethog iawn - tyst i hyn yw'r nifer o fanciau yng nghanol y ddinas, banciau o bob rhan o Sbaen a gweddill y byd.

Ac wrth gwrs, mae gan Palma ei hardaloedd lot mwy Sbaenig eu naws - yn y strydoedd cefn, tu ôl i caffes yr ymwelwyr, fe ddowch chi o hyd i'r bariau lle mae'r awyrgylch yn atgoffa dyn mwy o ddinas yn Sbaen ei hun lle na welwch chi erioed ymwelwyr, nag o Palma, prifddinas paradwys y twristiaid, Mallorca.

Hen fywyd od sy' gan Rep. Ydy - mae'n ddigon braf yn gorwedd yma ar falconi fy fflat yn yr haul (mae'r tymheroedd yn yr wythdegau) yn sgwennu atoch - ond ar y llaw arall, am ddau o'r gloch y bore, gweithio yn yr awyrenfa bydda i, yn cyfarfod awyren o Felfast (gobeithio fydd hi ddim yn hwyr!) a mynd â'r bobl i'w gwestai. Os na ga' i unrhyw broblemau ar y ffordd, falle ga' i fynd i'r gwely am bump o'r gloch, cyn dechrau ar ddyletswydd yn y gwesty yn y bore!

Mae'n amhosibl rhoi amserlen i chi o'm gwaith - mae'n amrywio o wythnos i wythnos, o ddydd i ddydd - ond dyna yw lot fawr o'r sbort yn y gwaith. Dwi byth yn sicr o beth fydd yn digwydd pan goda' i yn y bore. Ond yn fras, dyma i chi ryw syniad o fywyd Rep.

O 8.30 tan 10.30 y bore dwi ar ddyletswydd yn Apartments Tonir yn Portals Novs (dyn wedi colli £90 a chamera ddoe - gorfod helpu fe). O 11.00 tan 1.00, dyletswydd yn yr Hotel Kasai, lle mae gen i 70 westeion yn unig ar hyn o bryd.

Pnawn yn yr haul, os nad oes cyfarfod yn y swydda gynnon ni - mae rheini'n digwydd ddwywaith yr wythnos ac yn para rhwng pedair a phum awr bob tro! Yna o 6.00 tan 8.00 y nos, dyletswydd yn Apartments Bahia de Palma, yn Metas, rhyw dair milltir o'r lle dwi'n byw - dros gant o Wyddelod yna'r wythnos hon!

Ac ar ben hynny, rhaid gweithio yn yr awyrenfa dwywaith neu dair yr wythnos, - mynd â phobl yno i ddal awyrennau adre a chyfarfod â'r newydd dyfodiaid a'u hebrwng i'w gwestai. Gan amla' mae dyletswydd yn yr awyrenfa yn digwydd yn ystod oriau man y bore, gan fod hi'n rhatach i lanio awyren am 4.00 o'r gloch y bore nag am hanner dydd - a dyna lle byddwn yn eich disgwyl, efo gwen fawr ar ein wynebau. O ie, ac os dwui'n lwcus, mae gen i un diwrnod rhydd mewn wythnos - diwrnod i wneud DIM BYD!

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n dod ar eu gwyliau yn grêt - eisiau mwynhau eu hunain, a pheidio creu problemau. Ond mae'n syndod faint sy'n dod ar wyliau ac yn cwyno o'r eiliad gyntaf i'r olaf. Wyddoch chi, mewn un gwesty pum seren ges i grwp o bobl yn cwtno am y bwyd!

Felly cofiwch y tro nesa' fyddwch chi ar eich gwyliau - falle bo ni Reps ddim i gyd yn angylion, ond 'dan ni ddim ymhell o fod yn seintiau!

Sian Parry Jones.

O.N. Os oes 'na unrhywun ohonoch yn digwydd dod ar eich gwyliau yma cyn bo hir, gwnewch ffafr â'ch Rep, a rhowch eich papurau newydd iddi - mae £1 y tro yn ormod i dalu am hen bapur, a beth bynnag mae'n amhosibl cael gafael ar Western Mail yma!

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**


30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# DIRGELWCH DINESIG

TYBED A oes gan rai o ddarllenwyr craff y Dinesydd ryw syniad beth sy'n digwydd yn y llun yma?

**Dyma rai cliwiau i chi.**



**Gwelir y cae hwn i'r gogledd o "Bottoms Up" City Rd. (Penolau i Fyny, Ffordd y Ddinas) ac i'r de o'r Maenllwyd yn Rhydri.**
Cyflawnir yr holl waith a welir yn y cae gan Gymry Cymraeg.
Dyma'r unig gau o'i fath yng Nghaerdydd a'r unig un yng ngofal Cymry Cymraeg yn y byd.
Ymhlith y gweithwyr gwelwyd athrawon, prifathrawon, swyddogion awdurdodau addysg, cyfreithwyr, bargyfreithwyr, penseiri, adeiladwyr, swyddogion S4C, actorion, swyddogion y Swyddfa Gymreig, ac eraill sy'n weithwyr go iawn.
Mae'r oll o'r rhain erbyn hyn yn gallu gafael mewn rhaw er bod gafael rhai yn awgrymu iddynt fwrw'u prentisiaeth mewn rhyw Gyngor Sir.



**Roedd rhai yn hoff iawn o'r gwaith ac yn barod i edrych arno am ysbeidiau meithion tra'n gwarchod yn ofalus rhywbeth mewn tin. Beth tybed?**



**Beth yw'r rhain tybed?** Na nid parseli Nadolig cynnar ond roedd 1,400 ohonynt yn gorwedd ar y cae un amser. Os oes gennych syniad anfonwch eich ateb ar unwaith i rywun yn rhywle ac efallai y cewch wobr. Os am wneud yn siwr o beidio cael gwobr am ateb cywir anfonwch eich ateb yn syth at olygydd y Dinesydd.



**Dyma lun o'r gweithiwr mwyaf cydwybodol.** Dechreuodd ei yrfa yn "Bottoms Up" ond ar ôl iddo "gwino" yno fod y gwaith yn rhy galed cafodd ei ddyrchafu i fod yn un o brif dyllwyr y fenter hon.

Er ei fod yn waith caled iawn cafwyd llawer o hwyl ac yn wir er fod rhaid gwneud 1,500 o dyllau, roeddem wedi gorffen "tHOC" achos dim ond "PLONCo" pethau mewn twll wnaeth rhai o'r gweithiwrs. Rhyfedd iawn bod cynifer ohonynt yn ymddangos mor boenus ar ôl diwrnod o waith neu ddiwrnod o gloncan. Gallaf eich sicrhau nad "SIAMPAIN" oedd e chwaith.
Edrychwn ymlaen at dderbyn eich atebion - peidiwch brysio, mae'n rhaid i'r Dinesydd drefnu noson o de a chaws yn gyntaf i allu fforddio prynu gwobr i chi.

Owen Penning-Rowsell.

# PENARTH A DINAS POWIS

LLONGYFARCHIADAU i Mrs. Janie Jones ar ei hetholiad yn Gadeiryddes Cyngor Cymuned Dinas Powis. Mae Janie yn aelod gweithgar iawn i Blaid Cymru yn yr ardal ac yn wraig i Dafydd (Prifathro Rhydfelen) a merch i Mrs. Guy (Rhiwbina) - heb anghofio wrth gwrs mae hi ydy mam Lowri, Dewi, Dylan a Manon. Pob hwyl i Janie a rhwydd hynt iddi fel Cadeiryddes.

Llongyfarchiadau hefyd i Jeremy Williams ar ennill yr Ail wobr ar yr unawd i fechgyn 14-19 oed yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen. Yn sicr mae 'na ddyfodol disglair i Jeremy yn y byd cerddorol - mae e'n gerddor gwych yn barod - bob amser yn barod ei gymwynas ac yn hynod o serchus efo pawb. Dymunwn yn dda iddo yn ei flwyddyn olaf yn Ysgol Gyfun Glantaf ac yn ei yrfa dewisiedig ar ôl dyddiau ysgol. Clywais fod Jeremy yn cymryd rhan mewn gymaint â naw eitem ar un o ddiwrnodau'r 'steddfod!


Llongyfarchiadau eto! Fel y gwelwch mae doniau dirifedi yn yr ardal hon. 'Roedd pawb yn llawen i glywed am lwyddiant Nia Lloyd merch Gill ac Edryd a Jeremy mab Janet a Brian Williams. Mae'r ddau yma yn canu ac yn edrych fel angylion. Ail wobr gawson nhw yn Nyffryn Ogwen am ddatganiad bendigedig. Hefyd, daeth Jeremy i'r brig yn yr unawd i fechgyn - fe ddaeth e'n gyntaf! Ardderchog ynte! Llongyfarchiadau hefyd iddo ar gael rhan yn opera "Y Magic Flute" gyda Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i Dylan John (ein Cadeirydd y llynedd) a Mair ar enedigaeth eu mab. Croeso i Owen Rhys.

Braf yw cael cofnodi gymaint o lwyddiant y tro hwn - tipyn o newid o'r salwch a thristwch yn ystod misoedd y Gaeaf. Tro da ar fyd gobeithio.

# DATHLU'R DEFFRO

MAE'N AMHOSIBL ynysu un digwyddiad oddi wrth y cyfan sy'n blaenu. Ond serch hynny, mae rhai digwyddiadau unigol, megis buddigoliaeth Gwynfor Evans yng Nghaerfyrddin, ar Orffennaf 14 1966, y sefyll ar wahan fel trobwyntiau hanesyddol.



Datseiniodd yr ymateb i "Gaerfyrddin" am flynyddoedd wedyn ac yn sicr mae 'na lawer yn gweithio yn y mudiad Cenedlaethol heddiw a symbylwyd yn wreiddiol gan gamp Gwynfor.

Croesawyd y fuddigoliaeth yn gyhoeddus gan bobl tu fas i'r byd gwleidyddol led led y byd: danfonodd Harry Secombe delegram at Gwynfor, "Harold Wilson will have to learn to play the harp now"; cynhaliodd Richard Burton, Stanley Baker a Bob Mitchum barti yn Hollywood i ddathlu'r achlysur.

Ond yma yng Nghymru gwelwyd yr effaith fwyaf: daeth aelodau newydd i mewn i'r Blaid wrth eu miloedd - fe dyfodd yr aelodaeth yn ardal De Morgannwg o ryw saith deg i dros fil naw cant rhwng 1966 a 1969. Cymry di-Gymraeg oedd y mwyafrif llethol ohonynt ond cyn bo hir roedd y mwyafrif ati'n dysgu'r iaith.

Erbyn hyn mae llawer ohonynt yng Gymry Cymraeg, a'u plant yn chwyddo rhifau cynyddol ysgolion Cymraeg y Sir. Roedd hyder a gobaith newydd ar gerdded. Enillion yng Nghaerdydd o'r cyfnod 'na oedd pobl fel Cen Cen, Terry O'Neill gynt o Siop y Triban, Charles a Paul Cravos, dau ail-gefnder a gwrddodd am y tro cyntaf yn canfasio i'r Blaid, a Dai Banjo - ysgrifennydd cyffredinol y Blaid.

Yn yr awyrgylch ffafriol yma, dechreuwyd sawl ysgol Gymraeg newydd yn y cymoedd, ffurfiwyd Cwmni Sain, Cymdeithas Tai Gwynedd a thyfodd nifer yr ysgolion meithrin a dosbarthiadau nos Cymraeg. Arweiniodd hyn oll at ennill Meirionnydd a Chaernarfon ac ethol carfan gref o gynghorwyr ym mhob rhan o'r wlad.

Fe roddodd canlyniad is-etholiad Caerfyrddin hygredydd i obeithion a breuddwydion y bobl - breuddwydion nad oedd rhai hyd yn oed yn ymwybodol ohonynt. Unwaith y gwelwyd y syniad o Gymreictod a chenedlaetholdeb Cymreig fel rhywbeth ar y fyny, yn hytrach na grym a fu, roedd cefnogaeth iddo lle gynt oedd pesimistieth neu wrth-Gymreictod.

Wrth gwrs, ni ddigwyddodd Caerfyrddin mewn gwagle; fe ddaeth yn sgil blynyddoedd o waith ymroddgar, di-dâl ac yn aml yn ddi-ddiolch. Mae'n dwyn ffrwyth o hyd.

Os rydych chi am ddathlu'r achlysur, mae 'na rali fawr yn Sgwar Caerfyrddin, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12 yn y prynhawn, neu os na allwch fynd, mae Dafydd Iwan yn arwain y dathlu yng Nghlwb Ifor Bach, nos Wener, Gorffennaf 11. Croeso i bawb.

# GŴYL LLANDAF

ELENI, torrwyd mwy nag un gwys newydd ym maes yr Ŵyl hon. Gyda dyfodiad Neuadd Dewi Sant fe weddnewidiwyd bywyd ac arferion cerddorol y cylch. Bellach, doedd dim pwrpas i Ŵyl Llandaf gynnig yr un math o ddarpariaeth ag a gynigid gan y Neuadd. Doedd dim pwynt mewn cystadlu, yn hytrach, y ffordd ymlaen oedd cynnig arlwy a fyddai'n gredadwy yng nghyd -destun yr Eglwys Gadeiriol.

Fel y digwyddodd pethau roedd angen Cyfarwyddwr newydd ac fe ofynnodd Cyngor yr Wyl i'r Dr. George Guest i ymgymryd a gosod delwedd newydd i'r Wyl. Gŵyr pawb, erbyn hyn, am gyfraniad Dr. Guest drwy ei gôr llachar yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt. Gwyddom, hefyd, amdano fel un a aeth i'r afael a'r "pethe" drwy ei ymroddiad i ymberffeithio'i Gymraeg gan ddod yn rhan annatod ym mywyd diwylliannol Cymru.

O dorri cwysi newydd bu'r Ŵyl yn ddigon ffodus i gael ei law ar gyrn yr arad a chawsom y cynhaeaf cyntaf eleni yn ystod mis Mehefin. Cafwyd cyfuniad newydd o elfennau - y lleol, y cenedlaethol a'r rhyngwladol. Prif leoliad yw'r Gadeirlan a phlwyf Llandaf; yn yr eglwys ei hun cynhaliwyd cyngherddau o safon gan Academi San Martin, Pedwarawd Alberni a fu, hefyd, yn cynnal gweithdy offerynnol gyda dau gant o blant ysgolion cynradd y cylch, datganiad piano disglair gan Howard Shelley, Cantorion Ardwyn a chorau'r Gadeirlan a'r Gymdeithas Gorawl.

Yn neuadd hyfryd Ysgol Howell cafwyd datganiad arbennig gan Osian Ellis, cyflwyniad gwefreiddiol o gylch caneuon Schubert "Winterreise", a noson ysgubol gan Dafydd Iwan ac Ar Log.

Er mwyn atgoffa dinas Caerdydd am fodolaeth Gŵyl Llandaf torrwyd tir newydd eto drwy drefnu pedair darlith yn Eglwys Sant Ioan - dwy yn Gymraeg a dwy yn Saesneg. Pwnc Dr. Meredydd Evans oedd "Ieuan Ddu - eisteddfodwr a cherddor" a'r gobaith yw y caiff y ddarlith hon le ar dudalenau "Taliesin" maes o law. "Ambell Dro" oedd testun penagored Gwyn Erfyl a chafwyd ganddo oriel o ddarluniau - deuddeg i gyd yn cynnig golwg newydd i ni ar y byd a'r betws. Yn y ddwy ddarlith Saesneg cawsom ddau ddeuheuwr o haneswyr yn ein dwyn ar ein pennau i ferw gwyllt yr hwntw. Dynna'n bennaf oedd maes Dai Smith ac yn narlith gynhyrfus Gwyn A.Williams cafwyd ymdriniaeth drydanol ar Iolo Morgannwg - yr hwntw mawr ei hun.

Tri datganiad organ a gafwyd yn Eglwys Dewi Sant. Yn ôl Dr. Guest mae gan yr eglwys hon un o'r organau plwyf gorau mewn bod - organ "Father Willis" ac fe'i clywyd yn ei holl ogoniant yn natganiadau Roy Massey, organydd Cadeirlan Henffordd, Stephen Cleobury, Coleg y Brenin, Caergrawnt a Christopher Robinson o Gapel San Sior, Winsor.

Does dim amheuaeth o gwbl am lwyddiant cerddorol yr Ŵyl. Mae'r adolygiadau newyddiadurol, yn ddieithriad, wedi bod yn unfarn o glodfawr am ansawdd yr holl berfformiadau. Does amheuaeth am lwyddiant y darlithiau fel y tystia pawb a fu'n eu gwrando. Does dim amheuaeth chwaith am arwyddocad yr arddangosfa o waith Peter Spriggs. Y gobaith felly yw y cawn weld yr Ŵyl yn dod yn rhan o fywyd diwylliannol Cymry Caerdydd a'r cylch o gofio am mai alltud o Gymro sy'n ceisio anadlu ychydig o awyr iach i gorff ac enaid Gŵyl Llandaf ar ei newydd wedd.

Cofiwch amdani'r flwyddyn nesaf.

# Nodion o Gwm Ystwyth

RWY'N EI chael yn anodd i dorri cysylltiad â Chaerdydd; er fy mod yn prysuro i ddweud nad oes unrhyw awydd arnaf i wneud hynny o gwbl. Ond hyd yn oed pe mynnwn i bethau fod felly, y gwir yw nad oes unrhyw argoel bod y ddolen rhyngof â'r ddinas yn llacio'r mymryn lleiaf. Nid yw'r amgylchiadau yn ffafriol i hynny. Yn dydi hen bobol Caerdydd 'na yn dwad ar draws fy llwybrau i yn rhywle neu'i gilydd, yn ddiddiwedd! 'Dydw nhw ddim yn gadael llonydd i mi, a 'dydw inna ddim am roi llonydd iddyn nhw. Parhaed felly tra bo ynof chwyth.

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 21, wele lond bws o aelodau dosbarthiadau Adran Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd, dan ofal medrus a thadol Cefin Campbell, yn dod ar sgawt i dde Ceredigion a gogledd Penfro. 'Doedd pawb o'r criw diddan ddim o Gaerdydd: rhai o Lantrisant a Phontypridd; eraill o'r Bontfaen, Y Barri, Penybont-ar-Ogwr a Maesteg; eraill, eto, o'r Bargoed; ond, maddeued brodorion yr ardaloedd hynny imi, roedd cylch eu diddordebau yn canoli ar ymgwyddau Cefin yn y brifddinas. Yn yr achos penodol hwn, beth bynnag. A da hynny yn gyffredinol, 'dybiwn i. Po fwyaf perthnasol y bo Caerdydd i fywyd Cymraeg yr ardaloedd cylchynnol gorau oll a fydd hynny i'r brifddinas ei hun.

Ond, i gadw ar y trywydd, sôn yr oeddwn, onid e, am ymweliad rhai o ddoethion y dwyrain a rhan o'r gorllewin pell. Y gwir yw na lwyddais i gadw draw rhagddynt; ymunais â nhw tua chanol eu taith. Wedi codi'n blygeiniol, rai ohonynt, cychwyn o Gaerdydd am 8.30 a.m., llymeitian coffi ym Mhont Abraham ac yna ymweld â maen coffa Waldo Williams yn y wlad honno oedd yn gefn iddo "ym mhob annibyniaeth barn", deuthum wyneb yn wyneb â nhw y tu allan i blas hynafol Llwyngwair, hen gartref y Boweniaid a fu mor gefnogol i fethodistiaid y ddeunawfed ganrif. Yno, wedi ciniawa mewn awyrgylch drwyadl Gymraeg, diolch i'r teulu Innes, caswom gyfle i wrando ar berl o ddarlith gan y Prifardd T. Llew Jones, hynny ar bwnc agos i'w galon, sef Teulu'r Cilie. Y peth mwyaf trawiadol yn ei chylch oedd ei bod yn gyfuniad mor ddeniadol o'r digrif a'r dwys; a dawn y dweud yn swyno dyn yn llwyr. Byddai wedi bod yn werth teithio'r holl ffordd o Gwmystwyth i dueddau Trefdraeth pe ond i gael gwrando ar y fath draethu meistrolgar: bonws oedd cael gwneud hynny yng nghwmni cyfeillion a chydnabod hoffus.

A ninnau yng nghyffiniau Eglwys hynafol Nanhyfer ffolineb o'r mwyaf a fyddai mynd heibio iddi. Aethom yno yn dwr diddan a chael boddhad o edrych ar y coed yw, a'u gofer gwaed, yr hen groes Geltaidd o'r canol oesoedd, y croesau cynharach a osodwyd ym muriau'r eglwys, ac i gael ein croesawu'n gynnes gan yr offeiriad hynaws. A phrofiad buddiol i mi'n bersonol oedd ei glywed yn esbonio pam yr oedd dwy sedd neilltuol yn uwch na rhai eraill o'u cwmpas, mewn un rhan o'r eglwys. Yn fy "noethineb" roeddwn wedi awgrymu i rywrai mai'r rheswm am hyn, efallai, oedd bod y seddau hynny wedi eu bwriadu ar gyfer i'r esgob a rhyw glerig arall breintiedig eistedd ynddynt yn ystod taith esgobol drwy'r plwyf. A'm gwaredo. Fe'u bwriadwyd ar gyfer yr organyddion: gan ddibynnu ar hyd coesau y rheini gellid codi a gostwng y seddau hyn yn ôl y galw!

Teithiwyd o Nanhyfer hyd at Genarth, gan aros yno ar lan yr afon, yn mân siarad a llunio cynganeddion llusg yn diweddu gyda'r enw "Cenarth". Wele ddwy linell gampus. Gwerfyl wrth Glenys: "Yng nghwmni Glen yng Nghenarth". Glenys wrth Gwenfyl: "Yng nghwmni Gwen yng Nghenarth". Sôn am ffraethineb beirdd gwlad wir. A chan mai dilyn y bws yr oeddwn i, yn fy nghar bach coch, hefo'r hen gyfaill Robin Griffith yn gwmni diddan, mynnodd o ein bod yn aros am funud wrth y "Nag's Head" i weld enw Herber, wedi i'r pregethwr hwnnu, rywdro, sgriffio'i enw ar wydr un o ffenestri' dafarn. Yn anffodus torrwyd y ffenestr honno gan blant yn taflu peli eira tua thair blynedd yn ôl. Dyna mor fregus y gall traddodiad fod. Serch hynny, mi gawson weld y "coipu" (un o drigolion blewog De Amerig) yn ei garchar gwydr. A beth, meddech chi, yw "coipu", a sut y daeth hwnnw i'r orweddfan wydrol mewn tafarn yng Nghymru? Wel, rhaid gadael rhai o ddirgeledigaethau y gorllewin i chi, ddwyreinwyr, geisio eu datrys a'u dehongli.

Wedi swpera ar gyrrion Llandeilo, mewn awyrglych drwyadl Saesneg o blaid y gweini, gwaetha'r modd, bu'n rhaid i mi ffarwelio â'm cyd-Cymry cynnes a throi trwyn y Dai Hatsu (cefnder Siapaneaidd Dai bach y Sowldiwr) i gyfeiriad Cymystwyth. Bu fwyn y gwmniaeth a thirion y dydd. Pwy a ddymunai brofiad rhagorach?

Meredydd Evans.

---

Os hoffech ymuno a Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru, llenwch y ffurflen isod a'i hanfon at yr Ysgrifennydd, Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru, 43 Glenroy Street, Y Rhath, Caerdydd, CF2 3JX. (Ffon: 499769)

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

..............................................................

Amgaeaf £4.00 (tal aelodaeth unigolyn)
Amgaeaf £10.00 (tal aelodaeth sefydliad)
Amgaeaf £2.00 (tal aelodaeth i bensiynwyr, a'r di-waith)
Amgaeaf £ (fel cyfraniad)

Nodwch isod i ba undeb neu blaid wleidyddol yr ydych yn perthyn, fel y gallwn roi aelodau sy'n gweithredu yn yr un meysydd mewn cysylltiad a'i gilydd.

Undeb Llafur: ..............................................
Plaid Wleidyddol: ..............................................
Swyddi yn yr uchod: ..............................................
Ble rydych chi'n gweithio? ..............................................

# BRIC A BRAC

CAFWYD NOSON ddifyr a buddiol yn Neuadd y Pentre, Gwaelod y Garth nos Fercher 4 Mehefin yng ngwmni trigolion Caerdydd a Chwm Taf ddaeth a'u trysorau hynafol i'w dangos i'r arbennigwr Mr. Leslie Jones o Landeilo.

Trefnwyd hyn ar gyfer cyfres o raglenni "Bric a Brac" sy'n cael eu darlledu bob bore Mercher, toc wedi naw ar Radio Cymru. Er ein bod ni yng nghyffiniau Nantgarw dim ond un darn o'r porslen coeth hwn a welwyd; hwn yn gwpan dymunol iawn wedi ei addurno'n gelfydd a phatrwm man o aur a rhosyn yn y canol. Ei berchennog oedd Eleri Gwyndaf. Er mai dim ond am saith mlynedd bu ffatri Nantgarw ar agor, nid fu un arall mor fawr ei ddylanwad yng Nghymru.

Creiriau fferm diddorol o eiddo Eleri oedd tri chorn, un i drensio mochyn, un arall i drensio llo, a Chorn cinio i alw'r gweision i'w pryd bwyd. Yn ogystal roedd ganddi hen siesbin o gorn a chistan de mewn siap afal wedi'i weithio ar dwrn.

Roedd yno hefyd gistan hyfryd arall wedi'i llunio fel cistan bwrdd llong a bandiau pres a nicel o'i hamgylch. Blwch i ddal offer ysgrifennu oedd hwn a'i nodwedd mwyaf oedd y pren anghyffredin sef "pren Zebra".

Darn arall addurniadol o bren llwyfanen oedd plencyn mawr mewn ffurf peren a fyddai'n atodiad dymunol i unrhyw gegin fodern.

Daeth y Parchedig Raymond Williams a phlat lliwgar o "Imari Ware" a bowlen glas a gwyn, eto o waith Sieneaidd, y ddau dros gant oed.

Gwelwyd yno gawg prydferth o liw glas tywyll wedi'i addurno a blodau o waith Moorcroft. Fe'i prisiwyd am £120 er ei fod ond tua 40 oed.

Dangoswyd casglaid o boteli persawr wedi'u casglu dros ddeunaw mlynedd gan Cit Boobier, yr hynaf ohonynt o wydr coch o'r flwyddyn 1806. Roedd yma amrywiaeth o borslen, "mother of pearl" ifori, gwydr lliw, arian, "pinchbeck", a "silver gilt". Roedd llawer o'r poteli a chloriau arian "repousse" a'r nod Assay ynghudd ar y clawr neu'r gwddf. Mae'r nod hwn yn dynodi oedran y botel. Y trysor mwyaf gwerthfawr o'r rhain oedd "Vinagrette" o oes Sior III sef 1814. Hwn yn flwch arian bychan, modfedd o hyd a rhidyll yn gorchuddio ysbwng i ddal y persawr. Ni welodd Leslie Jones well casgliad erioed.

Peth arall oedd siwg fach o liw pridd a ffigyrau gwyn wedi'u cerfio ar y gantel.Cred Mr Jones y gallai ddod o grochenwaith Aberatwe adeg 1802 - 1810 am fod "tin-glaze" glas ar y gwneuthuraid.

Diddorol oedd 'pug-dog' mawr a'i ben ar wahan i'w gorff.Un o bar ydoedd wedi'u gwneud yn Ne Ffrainc neu yn Sbaen. Pris y par, serch nam ar wddf un yn £250. Eu pwrpas, sef jariau i ddal tybaco, a hyn mi greda i cyn i bris tybaco godi.

Aeth pawb adre yn hapus i bendwmpian am eu trysorau, boed yn ddefnyddiol neu'n addurdniadol, a llawer wedi'u synnu gyda'u gwerth presennol.

Cit Boobier

AM UNRHYW WAITH
PAENTIO AC ADDURNO
FFONIWCH Y DDAU ARBENIGWR:
TONY: 704118
HUW: 568654

# TRO YN LLYDAW

YCHYDIG wythnosau yn ol wrth ymweld a Llydaw, ac yn arbennig felly a thre Kemper, cafwyd cyfle i ymweld a Le Musee des Beaux-Arts. Saif yr adeilad nesaf i'r Hotel de la Mairie yn wynebu'r Eglwys Gadeiriol yn Sgwar Saint Corentin. Agorwyd yr adeilad yn 1872, ac fe'i hadeiladwyd o garreg leol yn y dull clasurol, wedi ei addurno a balconi a balwstrad ynghyd a nodwedd yn cynnwys bwa, ac odditano gerfluniau yn dynodi ffigyrau alegoriau a ddefnyddiwyd gan y peintwyr clasurol.

Yr oeddwn wedi bod yn edrych ymlaen at yr ymweliad heb yn wir wybod beth i'w ddisgwyl, gan na ddeuthum ar draws nodyn am yr oriel a'i chynnwys mewn llyfrau Cymraeg ar Lydaw. Hysbyswyd y casgliad lluniau yn y dref drwy gyfrwng poster deniadol iawn yn dangos un o baentiadau Emile Bernard. Bu Bernard yn gweithio am gyfnod yn ardal Pont Aven ynghyd a nifer o artistiaid eraill. Yno y sefydlwyd ysgol arlunio, a adnabyddir heddiw fel L'Ecole de Pont Aven, ym 1888.

Nodir hyn ar garreg wedi ei osod ar adeilad oedd cynt yn cael ei adnabod fel Pension Marie Jeanne Gloanec, ac sydd ar bwys y bont ynghanol y dref. Y mae enwau'r enwogion a restrir ar y garreg yn cynnwys Paul Gauguin, Emile Bernard, a'i chwaer, Madeleine, Paul Serusier, Henri Moret, Maurice Denis, Pierre Bonnard ac Eduard Vuillard. Roedd dylanwad rhain yn fawr iawn ar ddatblygiad Celfyddyd Fodern a'u cyfranaid at y berw oedd ym Mharis yn y byd arlunio yn ystod y degawd cyn, ac ar ol troad y ganrif. Ond stori arall ydy honno.

Y tu mewn i'r Musee des Beaux-Arts y mae yna gasgliad amrywiol gwych, a'r cyfan wedi'i osod yn chwaethus iawn mewn orielau glan a golau. Byddai llawer tref ym Mhrydain, heb son am Gymru yn falch o gyfleusterau a chasgliad o luniau mor wych a hwn, ac yn enwedig un sydd yn dangos cymaint o weithiau o safon gan artistiad Llydewig, a rhai eraill sydd wedi paentio yn Llydaw. Mewn un rhan o'r Musee lle arddangosir y math yma o luniau, fe geir ymdeimlad cynnes iawn o gelfyddyd sy'n perthyn i'r bywyd Llydewig ac sydd yn cyfleu y wlad, ei thraddodiadau a'i phobl mewn modd arbennig iawn.

Yn y dosbarth yma mae yma enghreifftiau gwych o waith yr ysgol yn Pont Aven ac o waith artist newydd i mi, sef Pierre de Belay, a aned yn Kemper ym 1890 ac a fu farw yn Ostend ym 1947. Newydd hefyd oedd dysgu am gysylltiadau Max Jacob a aned yn Kemper ym 1876 i deulu Iddewig. Neulltiwyd ystafell i baentiadau a lluniadau ganddo ac eraill o'i gyd-artistiad, ynghyd a chasgliad ardderchog o'i lyfrau, llawysgrifau, lluniau teuluol, ac ati.

Cyfeiriwyd eisoes at yr holl fywiogrwydd oedd yn nodweddu Paris yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yno yn ei chanol hi, roedd y Llydawr, Max Jacob, yn fardd ac yn artist. Aeth i Baris ym 1903 a chyn hir yn cwrdd ac yn cynnig rhannu ei ystafell dlawd yn Boulevard Voltaire a bachgen ifanc tlawd o'r enw Picasso. Un gwely oedd yn yr ystafell a Max yn cysgu'r nos tra roedd Picasso'n darlunio. Ym 1908 fe ffurfiwyd y grwp o baentwyr a beirdd a alwyd yn Group du Bateau Lavoir yno ym Montmartre. Ynghyd a Picasso a Max Jacob roedd Braque, Juan Gris, Gertrude a Leo Stein, Leger, Robert Delaunay, Rousseau, Apollinaire, ac yn ddiweddarach Marc Chagall ac eraill.

Ar wahan i Max Jacob, dyma eto gysylltu Llydaw a mawrion yr oes aur ym Mharis, gan i Emile Bernard hefyd yn ei dro fod yn flaenllaw iawn yn mywyd Gauguin, Van Gogh a Cezanne. Felly daw'r cylch yn ol i Lydaw a Kemper.

Rhag rhoi'r argraff mai dim ond celfyddyd sy'n gysylltiedig a Llydaw neu a chelfyddyd modern yn unig sydd yw gael yn y Musee, rhaid dweud fod yma gasgliad ardderchog o weithiau'r Eidal, yr Is-Almaen a Ffrainc o'r 17eg, y 18fed a rhan gyntaf y 19eg ganrif. Ymysg y rhain i gyd gwelir gweithiau gan baentwyr fel Giordano, Rubens, Fragonard, Watteau, Boucher, Cuyp, Gerard, Huet, a Corot.



Gan i mi hefyd grwydro rhywfaint ar rannau o Lydaw, gwell nodi hefyd i ni gwrdd a bachgen bach o Ferthyr yn cadw tafarn Ty Elise yn Plouye, heb fod ymhell o Huelgoat (Coed Hywel?) ac i'r de o Montrouley (Morlaix). Digwydd aros i dynnu llun o'r eglwys a gadael y car ar draws y ffordd i Dy Elise, wrth fynd heibio, cyfarch y gwr oedd yn sefyll y tu allan yn fy Ffrangeg gorau (sy'n ddifrifol o wael!) a hwnnw'n gofyn, " Cymro 'da chi? ". Y gwr oedd Bernard Walters sy'n nabod ac yn adnabyddus i lawer iawn o bobl yr Urdd a'r Blaid yma yng Nghaerdydd a led led Cymru am wn i. Profiad anhygoel oedd gweld tu mewn i hen dafarn a'i llawr pridd a'r byrddau a'r meinciau pren, ond rhyfeddach fyth oedd y posteri a'r papurau Cymraeg i fyny ar y waliau, ac ohonynt yn cyhoeddi - "Bernard Walters, Plaid Cymru candidate, Penydarren Ward, Merthyr Tydfil". Hefyd y llu o luniau o Gymry oedd wedi ymweld, a'r llyfrau yn cofnodi ymweliadau Cymry a'r dafarn. Mewn dim amser roedd tap o fiwsig Llydewig wedi ei newid am un o'r Hennessys a digon rhwydd fyddai aros a sgwrsio am oriau. Profiad anhygoel oedd cwrdd a chymeriad fel Byn Walters hefyd.

Dymuna ddanfon ei gyfarchion at ei gydnabod. Os ewch i Lydaw, ac os nad ydych eisoes wedi gwneud, ymwelwch a'r Musee des Beaux-Arts yn Kemper - ac a Byn Walters yn Plouye.

Seiriol Davies.

# BRAS-ODLAU

gan EMYR LEWIS

CYFROL A ddaeth o'r wasg yn ddiweddar ac sydd â chysylltiad â'r gornel hon o Gymru yw 'Ys gwn i a cherddi eraill' gan Rhydwen Williams. Ganed y bardd yn Pentre yn y Rhondda, ac ef a enillodd goron yr Eisteddfod ym 1964 am gerdd ar y testun 'Y Ffynhonnau' a ymdriniai â'i gwm genedigol. Mae'r gyfrol ddiweddaraf o'i eiddo yn cynnwys ambell i gerdd sydd a bywyd a marwolaeth yn y cymoedd diwydiannol yn gefndir iddynt. Dyna'r gerdd 'Angladd yn Aberpennar', er enghraifft, sy'n cynnwys y pennill cofiadwy:

Roedd y gladdedigaeth hon yn ddatganiad
a sgrifennwyd yn eofn
a blaen miniog gwynt Llanwonno
ar femrwn o ddaear Cymru,
hyn nag Aneirin...

Dyma fynegiant cynnil o arwriaeth bywyd a marw unigolyn yn mynd yn rhan o goffadwriaeth cymuned. Fel hyn mae'r gerdd yn gorffen, mae hi werth dyfynnu'n helaeth ohoni:

A'r datganiad oedd hyn:
Pan fo gŵr yn marw fel hyn,
hen lowr, mor onest â'r dydd, gwerinwr,
bydd gwawl yn bedyddio'r bryniau
na fedr y bedd fyth ei gelu na'i ganslo,
gogoniant a lysg i'r Bannau
na fedrwn ond ildio'n ymddiriedaeth
i'r mynydd
a'i gynnig i'r ffurfafen yn gyfamod -
y gogoniant a berthyn i'r Gymru hon.

Mae nifer o'r cerddi eraill yn rhai go hir o'u cymharu â'r ffasiwn diweddar mewn barddoniaeth rydd Gymraeg am gerddi byrion, er bod nifer o rai byrion yn y gyfrol hefyd. Un o'r cerddi hir mwyaf trawiadol yw 'Yr Hen Gi'. Ceir hanes magu'r ci o fod yn genau ofnus (Roedd llaw a gwên yn ddieithr iddo, / neidiai fel pe bai'n disgwyl dwrn;) hyd at ei ddifa'n hen gi am i'w ddannedd grafu croen dieithryn a ymwelsai a'r bardd (Gyrru nodwydd i'w gnawd, a bu farw / a'i lygaid wedi eu sodro arnaf i.). Mae'r gerdd yn fetaffor estynedig cywrain am berthynas grym a cham-ddefnydd pŵer. Gall Rhydwen Williams hefyd fod yn greulon o gryno, fel yn y gerdd fer 'Aberfan':

"Piau'r fynwent yn Aberfan?
Dyfed, Sioned ac Ann.

"Piau'r maen ar y mynydd?
Euros, Llinos a Lludd.

"Piau'r siom a piau'r saeth?
Cenedl a chenhedlaeth."

Mae diwyg y gyfrol yn cyrraedd safon uchel arferol y cyhoeddwyr, sef Cyhoeddiadau Barddas. Pris y gyfrol yw £4.

Menter gyffrous ar ran Cwmni Cytgord oedd trefnu taith, gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau, i nifer o feirdd ifanc o gwmpas Cymru. Cafwyd nosweithiau llwyddiannus yn y Gogledd a'r Gorllewin, ac ymweliadau buddiol ag ysgolion i ddarllen cerddi a chynnal gweithdai cyfansoddi. Cyhoeddwyd cyfrol i gyd-redeg â'r daith, a oedd, fel y daith ei hun, yn dwyn y teitl 'Fel yr Hed y Frân'. Cynhaliwyd ymweliadau ag ysgolion Rhydfelen, Llanhari a Glantaf a hefyd nosweithiau hwyliog yng Nghlwb Ifor Bach a Chlwb y Bont. Yn anffodus, erbyn diwedd y daith, ychydig o'r beirdd a gychwynnodd arni oedd yn weddill. Yr un bardd a gymrodd ran ym mhob un gweithgaredd oedd Ifor Huws sy'n byw yn Wordsworth Avenue ac yn aelod o dîm Talwrn y Beirdd Caerdydd. Un o brif nodweddion y daith oedd y gwahoddiad agored a estynnid i unrhyw un i ddarllen ei gerddi ei hun. Un a gymrodd fantais o hyn oedd 'Minder' Ifor Huws, sef Emyr Evans. Erbyn y nosweithiau yng Nghaerdydd a Phontypridd, roedd ei gerddi digri a dwys yn cyfrannu'n helaeth at lwyddiant y daith, ac 'roedd yn arbennig o boblogaidd yn yr ysgolion. Dyma limrig sy'n nodweddiadol o'i hiwmor. Cynigiwyd hi i dîm Talwrn y Beirdd Caerdydd, a gafodd y testun 'Hen afon go ddofn yw'r Iorddonen', ond, er mawr gywilydd iddynt, fe'i gwrthodasant:

Hen afon go ddofn yw'r Iorddonen,
Ac arni fe saethais hwyaden.
Edrychodd yn flin
Gyda phlwm yn ei thin,
Cyn suddo i'r gwaelod fel bricsen.

Mae cyfrol ar fin cael ei chyhoeddi gan Fudiad Gwrth Apartheid Cymru o gerddi yn y Gymraeg ac yn Saesneg gan feirdd o Gymru yn ymwneud â'r frwydr am ryddid yn Ne Affrica. Bydd noson i lansio'r gyfrol yng Nghlwb Ifor Bach ar Nos Fercher Gorffennaf 16ed pan fydd nifer o feirdd yn darllen eu gwaith a chyfle i unrhyw un a fynn i gymryd rhan. Cofiwch ddod i glywed ac i gyfrannu.

# YR YSBRYD A REDODD

SPORT AID

BOB GELDOF. Hwyrach nad oes yr un person wedi llwyddo i ddeffro cydwybod cenedl gyfan fel y gwnaeth y dyn hwn. Roedd yr apêl ganddo yn un didwyll a gonest, ond menter tra gwahanol i Live Aid a Band Aid oedd hwn. Y tro yma, gofynwyd am gyfraniadau mewn chwys, blinder a thostur.

Sport Aid. Ym mhedwar ban y byd, bu uniad mewn cydymdeimlad a brwdfrydedd. Ar y pumed ar hugain o Fai rhedodd miliynau ar filiynau i brotestio at anghyfiawnder llywodraethau'r byd; i annog y Cenhedloedd Unedig i weithredu'n effeithiol ac yn gyflym i ddileu'r newyn sarhaus yn Affrica; ac, yn naturiol, mewn ufuddod i ymdrechion di-flino Mr. Geldof.

Am dri o'r gloch, tu allan i Neuadd y Ddinas yma yng Nghaerdydd (ac awr cyn cychwyn y ras), roedd y rhedwyr yno yn eu miloedd ac roedd na lawer mwy i ddod. O flaen canolfan bendigedig y Brifddinas gwelwyd y tew, y tenau, yr heini a'r ....llai heini.

Mor wahanol oedd yr awyrgylch o'u gymharu â Marathon y ddinas a gynhelir pob mis Medi. Ac eto, mor debyg. Roedd 'na hwyl yma, a doniolwch, elfennau sy', yn fy marn i, wedi eu colli dros y blynyddoedd o'r Marathon. Ac eto, roedd 'na benderfyniad yno, fel yn y Marathon: penderfyniad i gyflawni rhywbeth, rhywbeth anweledol ond rhywbeth gwerthfawr, a'r rhywbeth yna yn wahanol i bawb.

I'r plant ac i'r ieuenctid, roedd hi'n ffordd hwylus a syml o ddangos bod cydwybod glan yn bodoli tu fewn i genhedlaeth sy'n cael eu camddeall mor aml. I'r rhieni a'r rhai hŷn, roedd hi'n esgus mawr i ymarfer y cyhyrau segur 'na, heb deimlo'n unig ac yn gochlyd! Ond, i bawb, roedd 'na deimlad braf.

Am bum munud i bedwar roeddem i gyd yn ein llefydd, yn barod i redeg. Ymestynnai'r llinell yn ôl dros saith can medr. Roedd gan neb unrhyw amheuaeth am y dasg i ddod, na'u penderfyniad i gyflawni'r cwrs.

Draw ar ochr arall Môr yr Iwerydd roedd Omar Shalif yn araf ymlwybro tuag at adeilad y Cenhedloedd Unedig yn yr Efrog Newydd. Am bedwar (yng Nghaerdydd) fe daniodd dorch enfawr gyda fflam a gynnwyd yn wreiddiol gan dan mewn gwersyll bwyd yng Ngogledd Affrica.

Yn Llundain, yn Glasgow, ym Madrid, yn Sydney, ym Mwdapest, yn Affrica, ac ar draws y byd fe ddechreuodd y miliynau i redeg. Yng Nghaerdydd, llusgodd y corff o bum mil ar hugain tuag at y man cychwyn. Fe gymerodd hi dros deng munud i bawb basio'r llinell cychwyn.

Roedd hi'n gwrs prydferth a, diolch byth, gwastad. Heibio i Gastell Caerdydd, dros yr Afon Taf ac ar draws y maes parcio lle, ond blwyddyn yn ôl, y cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd. Trechwyd unrhyw amheuon new wendid ysbryd gan frwdfrydedd a dyfal barhad y dorf.

Wrth inni basio drwy meysydd chwaraeon Pontcanna, gwelwyd, am y tro cyntaf, maint yr ymdrech. Wrth fyned i mewn i'r meysydd roedd hi'n bosibl gweld dros filltir a hanner o gwrs y rhedegfa - ac roedd y filltir a hanner honno wedi ei orchuddio gan neidr o gyrff chwyslyd.

Waeth imi beidio â dweud mae gorchwyl syml oedd y rhedeg. Mae 10km yn gryn bellter. Ond mewn awyrgylch tebyg i'r hyn a welwyd y prynhawn hwnnw, roedd hi'n anochel i byddai bron pawb yn cyflawnhi'r gamp.

Roedd 'na ddathlu ar hyd pob llathen o'r cwrs, er doedd dim i'w ddathlu yng ngwir ystyr y gair, ond buddugoliaeth fach dros gyhyrau poenus a difaterwch llywodraethau'r byd.

Roedd y digwyddiad ynddo'i hun, yng Nghaerdydd, yn lwyddiant ysgubol. Ymhlith y pum mil ar hugain ym Mhrifddinas Cymru, boed yn blant, yn rhieni, yn wncwl neu'n anti, roedd pob cenhedlaeth yn bresennol. Mi oedd hynny yn gamp aruthrol. Ffrwynwyd ysbryd y Cymry a'r byd gan Bob Geldof a'i arwain i gyfeiriad positif.

Mewn awyrgylch o lawenydd a hwyl ni anghofiwyd y rhesymau am y digwyddiad. Ni anghofiwyd y marw.

Mae 'na obaith lle mae ymdrech.

Rhodri Talfan Davies.

BRYSIWCH WELLA:
Gwellhad buan i Dilwyn Jones, aelod o staff S4C, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar, ac yn dal yn Ysbyty'r Brifysgol.

# Hela Cymreictod y Gaerdydd a fu

MAE'N DEBYG, wrth ystyried diffyg ymateb i'r erthygl yn y Dinesydd fis Mai, nad oes un o ddarllenwyr y papur yn cofio hen gapel y bedyddwyr Cymraeg, Siloam ar waelod Corporation Road. Ond ceir peth o hanes y capel, am y cyfnod 1857 hyd at 1901, yn y llyfr diddorol, "The History of Nonconformity in Cardiff", a argraffwyd ym 1901.

Cychwynnwyd yr achos mewn ystafell yn Stryd Padrig yn Nhrefiwt ym 1857 gan weithwyr rheilffyrdd Cwmni Dyffryn Taf gyda chefnogaeth y Parchedig Nathaniel Thomas, gweinidog y Tabernacl ar y pryd. Ym 1858, adeiladwyd capel yn Sgwar Mountstuart ac ym 1860 gollyngwyd cant dau ddeg pump o aelodau'r Tabernacl i sefydlu achos ar wahan yn Siloam. Y Parchedig Richard Richards, Amlwch, Ynys Mon, oedd y gweinidog cyntaf.

Tua throad y ganrif, wrth i gyfran sylweddol o boblogaeth Gymraeg y Dociau symud i fannau eraill yng Nghaerdydd, daeth gwaith y capel yn annos. Erbyn hynny, roedd gan y capel dim ond chwe deg tri o aelodau, pedwar deg pedwar o ddisgyblion ysgol Sul ac wyth o athrawon.

Rhywbryd wedyn, yn gynnar yn y ganrif hon, symydwyd yr achos i Corporation Road, tu draw i'r gamlas a'r Afon Taf, o'i hen gartref yn Nhrebiwt. Yn hwyrach, disodlwyd y Gymraeg gan Saesneg a gwerthwyd y capel i Fyddin y Iachadwriaeth. Yn y pumdegau sefydlwyd Siloam fel achos Saesneg mewn adeilad newydd ar ystad Llanrhymni ochr arall y **Ddinas.**



**Pwy tybed all lenwi'r bylchau yn** hanes yr achos Cymraeg hwn - yr unig sefydliad Cymraeg eriod, hyd y gwn i, i fodoli yn Nhre'rfaerdy (Grangetown)?

Wrth adael hen gapel Siloam ar waelod Corporation Road, roeddwn yn meddwl am y ddiweddar James Turner, perchennog y cwmni adeiladu 'Turners' - adwiladwyd canolfan ddinesig Caerdydd gan ei dadcu. Teulu o Dre'rfaerdy oedd y Turners, a James, y cyntaf ohonynt i feistroli'r Gymraeg - diolch i ganolfan yr Urdd. Yn ol James, roedd Tre'rfaerdy yn llawer mwy Seisnig na rhannau eraill o Gaerdydd, megis Y Sblot a Threganna. **Byddai'n dweud, "Roedd gan bob ardal yn** y ddinas o leiaf un capel Cymraeg ar un adeg ond doedd dim erioed un yn Grangetown". Nid oedd e'n gwybod am fodolaeth Siloam.

Penderfynais yrru o Dre'rfaerdy i Lanrhymni i weld cartref presennol Siloam ond cyn adael ardal y bel gron, dynnais lun o hen ffermdy'r Grange (Y Maerdy) sy'n sefyll o hyd serch yr holl newidiadau i'r ardal. Cymry Cymraeg oedd trigolion y ffermdy ganol y ganrif ddiwethaf pan adeiladwyd y rhesi cyntaf o dai gerllaw. Pan ddaw ysgol feithrin Gymraeg i'r ardal 'ma, cynnau tan ar hen aelwyd fydd hyn.

Ar ol gyrru ar draws y ddinas, gyrhaeddais gapel presennol Siloam yng nghanol ystad Llanrhymni. Mae'n adeilad digon cyffredin, yn debycach i neuadd bentre na'i ragflaenydd yn ol yn Corporation Road. Tybiais faint o bobl lleol sy'n ymwybodol taw gweithwyr rheilffordd o Gymry Cymraeg y Dociau oedd yn sylfaenwyr yr achos hwn. Wrth gwrs, erbyn hyn mae gan Llanrhymni ei sefydliad Cymraeg ei hunan yn Ysgol Bro Eirwg lle mae iaith hen weithwyr Siloam **yn fyw ac yn iach o hyd.**



**Os rydych chi'n teithio o Lanrhymni** hyd Heol y Bal fe ewch chi heibio Neuadd Llanrhymni - hen gartref teulu Henri Morgan y mor-leidr byd enwog; Llanrhymni oedd enw rhan o'i eiddo yn Jamaica. Bellach, mae'n hen dafarn garw ei olwg ond mae wedi bod yn safle i gartref uchelwyr lleol ers canrifoedd a chysylltiadau teuluol gyda Llys Ifor Hael, Plas Tredegar a Chwrt y Rhath.

Yn ol plac ar un o waliau mewnol y neuadd, "Yn y tiroedd yma, fe gladdwyd corff di-ben Llywelyn ein Llyw olaf gan fynachod a'i gludodd i Gilmeri." Tan canol pum degau'r ganrif hon, y neuadd a phedwar ffermdy oedd yr unig adeiladau yn Llanrhymni gyfan - lle mae heddiw un o 'stadau tai cyngor mwyaf Cymru.

Pwy a wyr os yw esgyrn Llywelyn yn Llanrhymni? Yn sicr, mae ei ysbryd yma o hyd ac o dan wyneb di-Gymraeg Caerdydd mae 'na ganrifoedd o Gymreictod yn aros i gael ei **ddatguddio.**



# BWTH RUTH



Wel, helo a pha hwyl sy'? Newydd ddod yn ol o Ascot ydw i a chriw Merched yn Bennaf (dyma sy'n cyfateb i Steddfod Genedlaethol y Saeson, yn ol Huw Ceredig||). Mae'n le lliwgar i'w ryfeddu gan fo'r adeiladau yn dripian mewn blodau, yn focsus ffenest a basgedi crog anferth - hyn yn wledd i'r llygad cyn son am liw y dillad amrywiol ac amryliw.
Braf oedd bod mewn ffasiwn le ac mewn cwmni oedd yn deall yr hyn oedd yn digwydd o'n cwmpas. Wyddwn i ddim mai yno yr oedd ceffylau gorau'r byd i gyd yn rasio a feddyliais i erioed y byddai ceffyl yn gallu costio cannoedd o filoedd o bunnau. Mae'n debyg fod diddordeb ariannol mawr yr Arabiaid mewn rasio ceffylau yn siwr o ddifetha peth o'r rasio a'r magu i'r rhai sy'n ennill eu tamaid wrth y gwaith. Wrth wrando ar Huw Ceredig, John a Jennie Thomas a Wyn Griffiths y sylweddolais i fod yna nifer go lew o hyfforddwyr a pherchnogion ceffylau yn y rhan yma o Gymru.
Jennie a John Thomas o Bendeulwyn ydi'r hyfforddwyr ceffylau fu'n dangos holl ddirgelion byd y 'gee gees' i mi a hwy hefyd sydd wedi plannu syniad yn fy mhen i wrth son am y busnes sydd ganddyn nhw yng Ngwmbran.

Mae John yn prynu hen bapur - yn focsus caledfwrdd ysgafn, papurau newydd a chylchgronnau wrth y pwysau ac yna yn ei dorri'n stribedi, ei wneud yn 'bales' i'w werthu er mwyn ei roi dan geffylau mewn stablau. Mi rydw i ers peth amser wedi bod yn cario fy mhapurau i i un o eglwysi Canton fel bod y Sgowtiaid yn elwa'n ariannol - tybed a fyddai'n bosib cael cefnogaeth darllenwyr y Dinesydd ac i ninnau gasglu papur yn ein ardaloedd a dod i drefniant gyda John Thomas a'r arian wedyn yn dod i goffrau anghennus y Dinesydd. Beth amdani, beth am ymateb yn y rhifyn nesaf? Hwyl|

---

GWYDDBWYLL:
Llongyfarchiadau i Volodia Kalinin o Landaf, gwr Elin Wyn Roberts, sydd wedi'i ddewis i chwarae yn nhim gwyddbwyll rhyngwladol Cymru. Mae e'n gobeithio teithio gyda'r tim i gynrychioli ei wlad newydd yn y Gemau Olympaidd yn Dubai ym mis Tachwedd. Gyda Rwsiad yn chwarae gwyddbwyll i Gymru, yr Is-Almaenwr Van den Hauwe, yn chwarae peldroed i'r hen wlad, beth am ofyn i'r Archentwr, Maradona, a'i ddwylo dawnus, i roi cymorth i'r tim rygbi rhyngwladol y tymor nesaf?

---


**AELODAETH 1986-87**

**CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG**

**NAWR** ydy'r amser i ail-ymaelodi neu ymaelodi am y tro cyntaf.

Ffurflenni ar gael gan:—
Swyddfa Rhanbarth
Morgannwg-Gwent
11 Stryd Lochaber
Y Rhâth
Caerdydd. Ffôn 488399

DIOLCH AM BOB CYFRANIAD ARIANNOL

Y Gorau yn Gyson i Gymru

Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth mawr o raglenni teledu ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o Gymru — o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni

ar S4C

Y Gorau yn Gyson i Gymru

PWYLLGOR
DATHLU
PEDWARCANMLWYDDIANT
CYFIEITHU'R
BEIBL

GŴYL A PHERERINDOD TYDDEWI
26 - 28 MEDI 1986

DIWEDD MEDI eleni, gwelir y bererindod fwyaf lliwgar a welwyd yng Nghymru y' ganrif hon yn Ninas Gadeiriol Tyddewi. Cynhelir y bererindod fel rhan o Ŵyl y Beibl.

Os bydd yr ymateb gan Ysgolion Sul Cymru hanner cystal â'r hyn a ddisgwylir gan y trefnyddion, bydd cannoedd o faneri lliwgar yn cael eu cario drwy'r strydoedd wrth i filoedd o bererinion gyrraedd Dinas Dewi o bob cyfeiriad ac o bob rhan o Gymru. Bydd y dyrfa yn cael ei hannerch gan esgob Tyddewi y Gwir barchedig George Noakes.

Dechreuir yr Ŵyl nos Wener Medi 26 gyda darlith yng Nghaerfyrddin gan yr Athro Emeritws Glanmor Williams. Testun ei ddarlith fydd yr Esgob richard Davies o Dyddewi, n o gyfieithwyr y Beibl i'r Gymraeg.

Ar y dydd sadwrn, drannoeth y ddarlith wrth i'r pererinion gyrraedd, cynhelir gwasanaeth a cheir anerchiad gan Esgob Tyddewi. Yn ogystal, cyhelir cystadlaethau a bydd adloniant ar plant iau. Ar derfyn y diwrnod ceir perfformiad dramatig gan Gwmni Brith Gof gyda chefnogaeth Celfyddydau Gorllewin Cymru. Bore Sul, ar ôl gwasanaeth dwyieithog yn y Gadeirlan, rhoddir ail berfformiad - y tro hwn yn arbennig i'r di-Gymraeg.

Rhagbaratoad yw'r Ŵyl ar gyfer dathliadau 1988 o Bedarcanmlwyddiant Cyfieithu'r Beibl i'r iaith Gymraeg gan yr Esgob William Morgan o Lanelwy ym 1588. Gwahoddir Ysgolion Sul i baratoi baneri lliwgar ar y thema "Mae Teyrnas Dduw fel..." a gyfer yr achlysur a'u cario yn yr orymdaith. Nid cystadleuaeth ffurfiol mo hon, ac mae'n siwr y bydd cystadlu brwd ond cyfeillgar rhwng ysgolion Sul a'i gilydd i gynhyrchu'r faner fwyaf lliwgar a gwreiddiol. Fel rhan o'r ŵyl, bydd tair cystadleuaeth, a gwahoddir pobl Cymru i gystadlu arnynt.

Gofynnir yn y gystadleuaeth gyntaf am gân Gristnogol fodern wreiddiol i'w pherfformio gan grŵp neu unigolyn. Parheir y thema "Mae Teyrnas Dduw fel..." gyda chyfiwyniadau i barhau am ddeng munud wedi'i seilio ar unrhyw adran neu adrannau o'r Testament Newydd. Gellir defnyddio llefaru, meim, dawns neu gyfuniad ohonynt a chaniateir offer a gwisgoedd. Beirniedir y ddwy gystadleuaeth, sy'n agored i grwpiau ieuenctid, gan Jim Clarke, Warden Coleg Eglwys Bresbyteraidd Cymru y Bala ac Arfon Jones, Cyd-drefnydd Ieuenctid yr Annibynnwyr. Byddant ym ymweld â phob rhan o Gymru ym mis Medi i ddewis pump o'r goreuon ymhob dosbarth i ymddangos yn Nhyddewi. Dyddiad cau derbyn ffurflenni cais yw Gorffennaf 26.

Mewn cystadleuaeth arall, sy'n agored i bob oed, am sgriptiau ar yr un thema, y beirniad fydd y Parch. John G. Roberts, Glyn Ceiriog. Bydd yn rhaid i'r sgriptiau fod yn addas i'w perfformio gan ieuenctid. Rhennir 200 o bunnoedd o wobrau.

Ceir mwy o wybodaeth ar yr Ŵyl a'i threfniadau a'r cystadleuthau (a ffurflenni cais) gan J.Cyril Hughes, Sycharth, 54 Maes Hendre, Waunfawr, Aberystwyth.

# DRAMODYDD DA?

AR NOS Wener ar ddiwedd Mai roedd gohebydd y Dinesydd yng nghwmni nifer rai eraill yn eistedd ar un o seddau anghyffyrddus Chapter.

Roedd yn gwylio cynnyrch diweddaraf Gareth Miles, Y Lleidr Da, drama a luniwyd i raddau ar batrwm y "thriller" Americanaidd yn y cyfnod cyn y rhyfel.

Wrth geisio'i wneud ei hun yn gyffyrddus ac edrych o'i gwmpas ar ormod o seddau gweigion, ni allai lai na chofio am adeg pan fedrai fynd yn lled rheolaidd i gludwch theatr fawr y Sherman i weld drama, er nad oedd yr arlwy o bosibl yn plesio bob tro.

Bellach mae'r rhod wedi troi. Dywedir wrthym nad yw'r lleoliad yn bwysig cyhyd ag y bo'r cynnyrch yn plesio. Hwyrach, ond bythefnos cyn hynny bu eich gohebydd mewn eglwys yn ardal y dociau a drowyd yn theatr ac roedd yn gorfod dewis clustog o bentwr i eistedd arni - ac ar ôl y profiad annifyr hwnnw, mae ef fodd bynnag yn credu bod ychydig o faldod yn help.

Mae'n barod i dderbyn bod dyddiau'r llenni'n cau ar ddiwedd act ar ben. Nawr, rhaid iddo weld popeth yn cael ei symud, a hynny'n aml fel rhan o'r perfformiad. Ond tybed a yw clywed dodrefn yn clindarddan yn yr hanner tywyllwch, yn ystod y perfformiad, fel a ddigwyddodd fwy nag unwaith yn Lleidr Da yn ychwanegu at realaeth? Dydy dyddiau efelychu golygfeydd byr a bachog y teledu ddim yn fel i gyd. Golygfa'n gorffen cyn iddi ddechrau'n iawn a'r rhithiau'n dod i mewn i berfformio'u symud diddiwedd. A hynny mewn un drama ar ôl y llall...



Gareth Miles - awdur Y Lleidr Da.

Gwnaeth eich gohebydd un camgymeriad mawr cyn mynd i'w le. Ar ôl talu tipyn dros deirpunt am ei sedd (anghyffyrddus) nid oedd am dalu pymtheg ceiniog arall am raglen ac yntau'n gwybod pwy oedd y pum actor fyddai'n cymryd rhan. Roedd yn ddigon hen ffasiwn i gredu y dylai drama fedru ei chynnal ei hun heb gymorth rhaglen, a chydag actorion gwahanol efallai y gallai'r Lleidr Da fod wedi gwneud hynny, ond roedd gofyn i un actor arbennig fod yn ddeintydd un funud ac yn swyddog yr heddlu'r funud arall ddim yn llwyddiant. Ar wahan i batrwm gwahanol o fwstas, roedd popeth ymron yr union yr un fath. Roedd gan y deintydd a'r plisman yr un hynodion, hyd yn oed; yr un duedd i ebychu a bwyta geiriau.

Gan fod merched yn gallu bod mor gyfnewidiol o ddiddorol, roedd eich gohebydd yn barod i dderbyn y gallai merch fod yn weinyddes dawel mewn ystafell deintydd un funud ac yn hoeden benchwiban yn gorwedd ar wely'r funud nesaf, yn enwedig gan ei bod gyda'r deintydd yn y ddwy olygfa. Pan ailymddangosodd (yn rhith y weinyddes) ar ôl iddi hi gael ei llofruddio, a phan ddaeth y deintydd i'r llwyfan toc ar ôl i ni glywed ei fod yng nghell yr heddlu, dechreuodd eich gohebydd amau - a gofynodd i rywun yn ystod yr egwyl a gai fenthyg rhaglen.

Roedd yr eglurhad yn glir. Roeddem i ddychmygu eu bod yn chwarae rhannau actorion gwahanol - a hynny mewn thriller ddyrus ei phlot. Ces fy mharatoi ar gyfer y drydedd enghraifft o gymeriad yn gorfod dyblu; bod yn blisman mewn sbectol haul un funud ac yn dipyn o foi dan-din y funud nesaf.

Gohebydd twp? Efallai. Omd nid dyna'r cyfan. Ni fedrai ddeall llawer o frawddegau allweddol yr actorion bob tro. A chan wybod mai dwy reol fawr pob drama yw bod yn weladwy ac yn glywadwy, cymerodd y bai ar ei ysgwyddau ef ei hun.

Yna, aeth at y bar a gofyn i gryn hanner dwsin a rhagor o bobl egluro ambell bwynt dyrus iddo a chael yr un ymateb bob tro - doedd hwn a hwn neu hon a hon ddim wedi deall yn iawn....oedd, roedd yr actorion yn gweiddi, ond...

Teg nodi i bopeth a fynegodd yr actor profiadol, Stewart Jones ddod yn glir i'r glust trwy'r adeg a gallai ddangos cynnwrf heb weiddi. Rhaid bod gwers yma i rywrai heblaw gohebydd y Dinesydd. Felly, ddarllenwyr, ni all ddweud a oedd y lleidr da yn chwarae ei ran mewn drama dda ar ei hyd ai peidio oherwydd iddo golli cymaint o frawddegau ac mewn thriller o'r math hwn, dylai'r cynhyrchydd ofalu nad oes perygl i ddim fynd ar goll.

Rhaid canmol y set artistig ac effeithiol. Rhaid canmol hefyd y cynhyrchu o ran symud ac amseru. Yn wir, rhaid canmol yn ogystal sawl enghraifft o actio gafaelgar, a hynny gan bob un o aelodau'r cast. Mae'n bosibl y byddai'r llefaru'n gymeradwy mewn ambell theatr arall...ond gall cyseiniant fod yn od nawr ac yn y man, yn enwedig mewn hen ysgol neu hen eglwys a addaswyd. Rhaid derbyn fodd bynnag y gall colli rhediad rhannau o stori yn y math yma o ddrama amharu tipyn ar fwynhad y cyfan yn y pendraw.

Nawr, os gall rhywun ddweud wrth eich gohebydd a'r holl bobl eraill yna paham bod Stewart Jones mor awyddus i ladd rhywun bob tro yr ymddangosai ar lwyfan, byddent yn falch.


Gyda llaw, roedd brawddeg yn y rhaglen yn gofyn i'r mynychwyr cyffredin anfon unrhyw sylw i'r pencadlys ym Mangor. Tybed a fedrech chi anfon copi o'r Dinesydd iddo fel y gall gyhoeddi'r tro nesaf bod prynu rhaglen yn hanfodol ar geyfer deall thrillers.

Ond fe bryn eich gohebydd raglen y tro nesaf.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 - 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

# TORTH O FARA

ERS I MI YMWELD â swyddfa Cyngor Defnyddwyr Gymru ar gyfer erthygl i'r Dinesydd pan ddaeth Rhiannon Bevan yn gadeirydd y Cyngor, rwyf wedi bod yn derbyn eu datganiadau i'r Wasg yn gyson. Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi lleisio eu barn ar sawl pwnc llosg. (Gellir cael manylion am waith y Cyngor o'r swyddfa yn Adeiladau'r Castell, Heol Womanby, Caerdydd, CF1 2BN)

Yn ddiweddar cefais fraslun o ymateb y Cyngor i gynlluniau'r Llywodraeth i ddiwygio deddfwriaeth dŵr a charthffosiaeth. Gyda'r haf wedi cyrraedd priodol yw sôn am y pwnc hwn gan fod y Cyngor yn ofni y bydd traethau Cymru yn dioddef os bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen gyda'u cynlluniau i breifateiddio'r awdurdodau dŵr.

Yn ôl y Cyngor, os bydd gwasanaethau dŵr yng ngofal cwmniau preifat bydd rhaid i'r Gyfraith fynnu eu bod yn cadw'r dyfroedd o gwmpas traethau Cymru'n ddi-lygredd. Dywedodd Rhiannon Bevan mewn datganiad i'r wasg ar ddydd Mercher 18 o Fehefin:

"Nid yw datrys problemau llygredd ar draethau Cymru'n ffordd rwydd o wneud elw. Ni allwn ddibynnu ar gwmniau dŵr preifat - sydd â chyfrifoldebau tuag at gyfranddalwyr ac at wneud elw - i gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd drylwyr a chydwybodol lle mae hyn yn costio'n ddrud, ac yn dod ag ond ychydig o incwm iddynt. Bydd y cwmniau dŵr preifat yn wynebu dewis caled yn y sefyllfa honno, rhwng bod yn deg i ddefnyddwyr neu yn ddeniadol y fuddsoddwyr. Yn y pendraw, bydd rhaid iddynt roi'r pwyslais ar wneud yr elw mwyaf posib. Yr unig ffordd i sicrhau bod traethau Cymru yn cael eu diogelu mewn modd addas yw i'r Gyfraith orfodi cwmniau preifat i wneud hyn."

Nid yw'r Cyngor ar ei ben ei hunan yn hyn o beth; mynegwyd pryder am lygredd oddi wrth garthffosiaeth mewn adroddiad diweddar gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Galwyd yn yr adroddiad hwn am i safonau glendid dyfroedd ymolchi o gwmpas mwy o'r traethau gael eu codi i gwrdd â safonau'r Farchnad Gyffredin.

Mae'n drueni bod y llywodraeth a chwmniau preifat yn dueddol o anghofio bod pethau eraill, fel gallu mwynhau ymdrochi mewn dŵr môr glân ar arfordir ein gwlad, yn fwy pwysig na gwneud elw i'r lleiafrif o'r boblogaeth.

Ym mhapur ymgynhorol y Llywodreth ceir hefyd gynlluniau ar gyfer trosglwyddo i'r awdurdodau dŵr y cyfrifoldeb am holl bibellau cyflenwad dwr hyd at yr adeilad maent yn eu gwasanaethu. Ar hyn o bryd mae perchnogion tai yn gyfrifol am bob pibell dŵr o fewn cyffiniau eu heiddo ac hefyd am dalu iddynt gael eu trwsio. Yn aml iawn mae perchnogion tai yn hollol anymwybodol o'u cyfrifoldebau am y pibellau. Gan bod cymaint ag un rhan o dair o holl ollyngiadau dŵr yn deillio o ddiffygion yn rhannau tanddaearol pibellau sy'n eiddo i'r defnyddwyr ar hyn o bryd, cred Cyngor Defnyddwyr Cymru y byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb am bibellau yn gyfangwbl i'r awdurdodau dŵr yn datrys llawer o'r problemau sy'n achosi gollyngiadau.

Hoffai'r Cyngor weld perchnogion tai yn cael mwy o wybodaeth am eu cyfrifoldebau am bibelli draeniad a charthffosiaeth a dylai defnyddwyr gael gwybodaeth am wasanaethau a gynigir gan awdurdodau dŵr:

"Mae pob awdurdod dŵr eisoes yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth o dan 25 o benawdau ar safon gwasanaethau," dywedodd Mrs. Bevan. "Rydym yn credu bod y wybodaeth yma o fudd i ddefnyddwyr, i gyfranddalwyr ac i'r diwydiant dŵr ei hun. Byddem yn falch petai'r gyfraith yn mynnu bod yr awdurdodau dŵr newydd yn cyhoeddi'r wybodaeth yma. Fe ddylai fod yn ofynnol arnyn nhw hefyd i gyhoeddi, ymlaen llaw, eu blaenoriaethau a'u bwriadau buddsoddiad. Bydd hyn yn amddiffyniad i ddatblygwyr ac i berchnogion eiddo rhag i'r awdurdodau dŵr preifat a argymhellir newid eu meddwl yn fympwyol."


# Coctêls

OS YDYCH YN gwneud yn fawr o'r dyddiau poeth prin rydym yn cael bob haf wrth eistedd allan yn yr ardd, beth am baratoi diod adfywiol i fwynhau wrth ymlacio? Dyma rai syniadau.

Gwin Blodyn Ysgawen (i'w baratoi ymlaen llaw).
Dyma win sy'n hawdd iawn i'w wneud. Mae angen poteli gwydr cryf gyda topiau sgriw iddynt. Fe ddylai fod yn barod i'w yfed mewn dwy neu dair wythnos.

2 neu 3 pen o flodau ysgawen
galwyn o ddŵr
1.5 pwys o siwgr
sudd a chroen 1 lemwn
2 llond llwy fwrdd o finegr gwyn

Rhowch y cynhwysion mewn cynhwysydd sydd â chlawr iddo. Cymysgwch yn dda i doddi'r siwgr, yna gadewch iddo sefyll am 24 awr. Hidlwch i boteli glân, rhowch y poteli mewn lle sydd ddim yn mynd i gael gwres uchel (rwyf wedi cael y profiad o'r poteli yn chwythu a ffrwydro!) Er mwyn sicrhau nad oes gormod o "fizz" yn y poteli, llaciwch y topiau ychydig yn ystod yr amser maent yn sefyll.



Rhew Afal Pin a Bricyll (digon i 4).
1 tun 15 owns i fricyll
1/4 peint o sudd afal pin (heb siwgr)
1/2 llond llwy de o rinflas mintys poethion
rhew wedi'i falu
4 sprigyn o fintys

Rhowch y bricyll a'u sudd, y sudd afal pin a'r rinflas mintys poethion mewn prosesydd bwyd. Dylai'r cymysgedd fod yn puree ar ôl ei brosesu. Rhowch y rhew mewn 4 gwydyr, ychwanegwch y sudd ac addurnwch gyda sbrigyn o fintys.

Diod Gŵyl Ifan (digon i 10)
1 potel o win Riesling
1 potel o win Beaujolais
3 llond llwy fwrdd o liqueur blas oren
1 afal wedi'i sleisio
darnau o felon
ychydig o fefus
rhew wedi'i falu
1.25 peint o lemwned

Rhowch y ffrwythau a'r rhew mewn powlen, ychwanegwch y gwin a'i liqueur, yna'r lemwned. Gweinwch pan yn oer iawn.

Coctêl Codiad yr Haul (digon i un).
1.5 owns hylif o sudd oren
1.5 owns o vermouth sych
ychydig ddafnau o orange bitters
rhew wedi'i falu
sleisen o oren neu lemwn

Ysgwydwch y cynhwysion gyda'i gilydd mewn ysgwydwr coctel. Hidlwch i mewn i wydr coctêl. Addurnwch gyda sleisen o oren neu lemwn.


**celtic asset management ltd.**

RHEOLWYR BUDDSOSDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021



CYNGOR YSGOLION SUL CYMRU
Caerdydd a'r Cylch (Dwyrain Morgannwg)


Bydd y Swyddog Datblygu yn ei swyddfa yn
25 Cathedral Road,
Caerdydd, CF1 9HA.
ffôn: 383348

ar yr adegau yma o fis Mehefin 1986 ymlaen:

Dydd Mawrth 10.00 - 1.00
Dydd Mercher 10.00 - 5.00
Dydd Iau 12.00 - 7.00
a phob dydd Sadwrn cyntaf o'r mis 10.00 - 4.00.

Mae croeso i unrhyw athro Ysgol Sul o unrhyw enwad alw yno am sgwrs neu am gymorth.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 63



AR DRAWS:

8. Aelwydydd gadw moduron? (8)
9. Teimladau cryfion yn deillio o ffrwtian yr uwd yna. (6)
10. O gario'r bocsys i gyd ei hun fe gafwyd ei fod wedi cleisio. (4)
11. Ar siawns y daw'r posibilrwydd hwn i aelod, mi wn. (10)
12. Troi dwrn cyfaill yn lledchwith. (6)
14. Mynegiant ansicr ydi greddf o gyflwr "dyn o'r byd". (8)
15. A yw'r piseri yn arennig o fain? (7)
17. Torri tir newydd yn Sir Benfro o Farloes i Hwlffordd. (7)
20. Heliwr o gylch y Bala?
22. Ymddiswyddo a ddylem o gael pethau mor afler. (6)
23. Carreg seindorf a gewch wrth ddilyn llinell 17 yn fras am ryw ddeuddeng milltir ymhellach. (10)
24. "_____ hwn yw mab y saer?" (Mathew) (4)
25. Brygawthan. (2,4)
26. Hesb yw pres parod yr Hwntw. (5,3)

I LAWR

1. Chwenychais y pet h a'r peth. (8)
2. Gwanas. (4)
3. Osgiladur yr awyrlais. (6)
4. Y cyfnod a'i orchwyl. (3,4)
5. Troi a throsi mewn poen hagr, ond rhaid wrtho. (8)
6. Doedd y drefn ddim yn sefydlog yn y gwaelodion. (10)
7. Tŷ haf o'r amser gynt. (6)
13. Dau lyfr o'r Hen Destament. (10)
16. Argyhoeddiad y deial cywrain ar waelod yr ardd. (8)
18. Cyfarwyddiaid. (7)
19. Tafell o far-menyn sydd wedi ei ddyblu, bellach. (7)
21. ffrwyth y senora afieithus. (6)
22. Rhan o gynnyrch llenyddol T.H.P-W. (ac Addison). (6)

DATRYSIAD CROESAIR 62:

AR DRAWS:
1. Gorymateb; 6. Mebyd; 9. Enciliant; 10. Ymysg; 11. Ar y naw; 12. Seithongl; 14. Iaith; 15. Asgwrn Cefn; 18. Mynd tua thre; 19. Heli; 21. Glo Brig; 23. Ieithydd; 25. Dewis; 26. Amgylchiad; 27. Gwnio; 28. Dichonadwy.

I LAWR:
1. Gwer; 2. Recordiwn; 3. Melynu; 4. Trallwysiad gwaed; 5. Betws Gwerfil Goch; 6. Mwyniant; 7. Bwydo; 8. Digalondid; 13. Dirmygedig; 16. Efelychiad; 17. Startsio; 20. Diflin; 22. Olwyn; 24. Adwy.

---

CYSATDLEUAETH RHIF 61:
Aeth canlyniad y gystadleuaeth hon ar goll ar ol gadael dwylo ap Lewsyn a chyn cyrraedd y cysodwyr. Dyma fe yn fras. Derbyniwyd saith ymgais cywir, a'r enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Mair Robins, 37 Heol Don, Yr Eglwys Newydd, ac mae tocyn llyfr am £5 wedi ei chyrraedd erbyn hyn.

---

CYSTADLEUAETH RHIF 62:
Dim ond pedwar ateb hollol gywir a ddaeth i law. Daeth enw J.L. Ger-y-Llyn allan o7r het a bydd tocyn £5 ar ei ffordd iddi gyda hyn. Tair merch oedd y cystadleuwyr cywir eraill hefyd, sef Dilys Gunston, Heol Tygwyn; Rhian Williams, Clearwater Way; a Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd.

---

CYSATDLEUAETH RHIF 63:
Tocyn llyfr £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair, a'i anfon i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Awst 10, os gwelwch yn dda.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Ceisiwch beidio â boddi mewn hunan dosturi - er efallai y bydd gennych achos. Er nad yw pob peth yn mynd fel y dylai ar hyn o bryd byddant yn siwr o wella cyn bo hir.

TAURUS: Bydd gofyn i chi wynebu rhyw fath o her y mis hwn - peidiwch da chi â'i osgoi er y bydd efallai yn golygu dadwreiddio - neu mi fyddwch yn difaru'n dost maes o law.

GEMINI: Mae'n bosib y cewch broblemau ariannol y mis hwn, er nad chi efallai fydd yn gyfrifol am y llanast. Byddai'n ddoeth ymgynghori ag arbennigwr nawr.

CANCER: Mi fyddwch mewn cyfyng gyngor y mis hwn - yn pendronni i ba gyfeiriad i droi. Gadewch i eraill eich arwain. Mae hwn yn gyfnod da i symud tŷ neu swydd.

LEO: Rydych ar fin darganfod pwy yw'ch gwir gyfeillion - ac efallai y cewch dipyn o sioc o'r herwydd. Efallai bydd anghydfod yn y gwaith, arwydd i chi symud ymlaen efallai.

VIRGO: Mae hi'n bryd bellach troi dalen newydd ar ôl cyfnod eitha cythryblus - mae gennych lawer mwy o hunan hyder erbyn hyn. Mi fyddai hi'n ddoeth symud swydd nawr os yw hynny'n bosib.

LIBRA: Bydd hwn yn fis yn llawn cyfle, yn enwedig yn y gwaith, ac ym materion y galon. Gallech lorio eich gwrthwynebwyr bob un y mis hwn, er fod rhywun rhywle yn ceisio'ch dymchwel chi!

SCORPIO: Dylech newid gogwydd eich bywyd personol nawr - ond gallwch fforddio i gymryd eich pwyll i weld o ba gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu. Cymrwch ofal o'ch arian - nid dyma'r amser i fynd i bartneriaeth.

SAGITTARIUS: Mae'n edrych yn debyg y bydd rhyw anghydfod rhyngoch chi a rhywun agos atoch chi - ond fe ddaw i ben toc. Mae hi'n bryd i chi symud ymlaen - i wlad dramor hyd yn oed - ond cofiwch wneud eich cynlluniau'n ofalus.

CAPRICORN: Roedd Mehefin yn fis tipyn gwell i chi na fydd Gorffennaf. Mae'n bosib y bydd rhaid i chi wynebu argyfwng teuluol. Byddwch yn barod i wneud penderfyniadau ar fyr rybudd.

AQUARIUS: Bydd rhai llai talentog, a llai profiadol na chi yn awyddus i gymryd yr awenau oddi wrthych. Efallai mai eich ymddygiad ynplyg chi fydd yn gyfrifol am hyn. Ymlaciwch, a fe aiff pethau'n llawer hwylusach.

PISCES: Rydych yn mynd trwy gyfnod eitha emosiynol ar hyn o bryd - ond peidiwch â beio eraill am hyn. Mae peth bai arnoch chithau hefyd. Diffyg dealldwriaeth ar y ddwy ochr sy'n gyfrifol.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

# Cydymdeimlo

COLLI MAM:
Cydymdeimlwn yn ddwys â Phyllis Kinney a Dr. Meredydd Evans a'r teulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Ychydig ddyddiau yn unig wedi i Phyllis ddychwelyd o'r Unol Daleithiau wedi ymweld â'i rhieni daeth y newydd trist bod ei mam wedi marw. er ei bod mewn cwth o oedran nid yw'r golled yn llai ac y mae pryder Phyllis yn awr am ei thad, a'r pellter mawr yn ei gwneud hi'n anodd iawn iddi. Dymuna darllenwyr y Dinesydd gydymdeimlo â hi yn ei gofid.

MARWOLAETH:
Bu farw Mr. Chris Evans, diacon ac arweinydd y gân yng nghapel Minny Street. Roedd yn enedigol o Aberafan a bu'n byw yng Nghaernârfon am gyfnod cyn dod i Gaerdydd ym 1941. Estynwn ein cydymdeimlad i'w fab Brian a'i wraig Glenys ac i'r wyrion Lisa ac Emyr.

MARWOLAETH:
Cydymdeimlwn â Gwyn Erfyl a'r teulu ar golli mam a nain oedd mor annwyl iddynt.

MEDDYGA:
Llongyfarchiadau i Owen Evans, nawr o'r Wenfo, gynt o'r Barri, ar gwblhau ei hyfforddiant fel meddyg yn Ysbyty Sant Bartholemew yn Llundain. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd gyntaf yn Southend.

GENI:
Llongyfarchiadau i Huw a Mair Owen - Huw yn fab i Trefor a Gwen Owen - ar enedigaeth mab bychan, Dylan Gruffydd, a'r teulu bach yn byw ym Mynytho.

DYRCHAFIAD:
Llongyfarchiadau i Glyndwr Evans, Yr Eglwys Newydd ar ei benodi'n brifathro ar Ysgol Gynradd Hendredenny, Caerffili. Mae Mr. Evans ar hyn o bryd yn ddirprwy brifathro Ysgol Brynna. Mae'n frodor o Benegoes ger Machynlleth a chyn dod i Gaerdydd bu'n dysgu yn Llundain ac yng Nghanada. Mae'n aelod o Gantorion Ardwyn, yn ddiacon yng nghapel Minny Street ac yn aelod o Gylch Cinio'r Barri. Mae Helen, ei wraig, yn dysgu yn ysgol Erw'r Delyn, Penarth ac mae ei ddau blentyn, Rachel a Mathew, yn ddisgyblion yn Ysgolion Glantaf a Melin Gruffydd.

GWELLHAD BUAN:
Dymunwn adferiad llwyr a buan i Myrfyn Owen, Rhiwbeina, sydd newydd ddychwelyd o Ysbyty'r Brifysgol ar ôl trawiad ar y galon. Y mae mewn hwyliau ardderchog ond awgrymwn mai ei arwyddair am rai misoedd ddylai fod "yn araf deg y mae mynd ymhell".

BRYSIWCH WELLA:
Dymunwn adferiad llwyr a buan i Gwilym Jones ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol yn ddiweddar.

PRIODI:
Llongyfarchiadau i Cathryn Gwynn, Gwasg Gomer, a Peter Jones, Pennaeth Adran Gelf Cyngor Celfyddydau Cymru ar eu priodas diweddar.

# Meithrin

OHERWYDD y cynnydd aruthrol yn y galw am addysg feithrin Gymraeg o fewn y Sir mae prinder pobl addas i arwain y grwpiau.

Mewn ymdrech i oresgyn y broblem, trefnir Cwrs Blwyddyn gan ddechrau ym mis Medi, mewn tair canolfan yn y Sir sef Caerdydd, Y Barri a'r Bontfaen.

Bydd cost y cynllun yma yn £8,000 ac wedi derbyn cymorth gan M.Y.M. yn ganolog ac ati mae angen codi £3,500 i sicrhau llwyddiant ariannol y cwrs.

Er mwyn codi'r arian sefydlwyd Is-bwyllgor ac ar nos Wener, y 12fed o Fedi, rhwng 5.30 ac 8.30 yn Stadiwm y Maendy, trefnir rhedeg nawdd. Bydd timau o Ysgolion Cymraeg y Sir yn cymryd rhan ac hefyd mae cyfle i rieni a chyfeillion yr achos ymuno yn yr ymdrech.

Os hoffai rhai o ddarllenwyr y Dinesydd ymuno â'r digwyddiad yma, cysyllter a threfnydd y noson yn 6 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd, (693254). Bydd yn falch o glywed oddi wrthych!

ADFERIAD BUAN:
Dymunwn adferiad buan i Miss Muriel Rees-Pryse sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Dewi Sant. Trysorydd capel Salem, Canton yw Miss Pryse ac mae aelodau'r capel yn danfon eu cofion ati ac yn gobeithio'n arw y bydd hi'n ol yn ei lle arferol yn y set fawr cyn bo hir. Brysiwch wella, Muriel.


# SIÔN A SIÂN

Bydd y gyfres boblogaidd SIÔN A SIÂN yn ôl ar S4C cyn hir.

Yn stiwdio HTV yn Yr Wyddgrug y bydd y rhaglenni yn cael eu recordio, a hynny ddiwedd mis Gorffennaf. Ar gyfer y gyfres bydd angen cystadleuwyr a chynulleidfaoedd. Os oes gennych ddiddordeb, danfonwch yr isod ar unwaith at: Siôn a Siân, HTV, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd, CF5 6XJ.

Enw ..........................................

Cyfeiriad ..........................................

..........................................

..........................................

..........................................

Rhif ffon ..........................................

[ ] Hoffwn gymryd rhan yn Siôn a Siân.


[ ] Hoffwn ddod â chynulleidfa i weld y rhaglen yn cael ei recordio.

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

HTV CYMRU



**— diddorol — defnyddiol — dychanol — deifiol — deniadol — doniol — dymunol —**



**DYDDIADUR 1987**
Clawr sglein, llawn gwybodaeth. **£1.90**

**YN ANNWYL I MI / Heini Gruffudd**
Nofel am gariad a chasineb rhwng y rhywiau a rhwng Dwyrain a Gorllewin. **£3.45**

**TEITHIO'R SAHEL / Stephen Griffith**
Adroddiad llygad-dyst o'r newyn yn yr Affrig. **£2.95**

**CEIDWAD Y GAER / Doreen Wynne**
Nofel antur i blant: y gyntaf yng Nghyfres yr Oriau Cudd. **£1.75**



**DWYLO AR Y PIANO / Sŵ Jones**
Llyfr cyntaf, cynhwysfawr ar gyfer dysgu'r piano. **£2.95**

**Y LLOSGI / Robat Gruffudd**
Nofel epig, tra syfrdanol a gwych, am Gymru heddiw. **£3.95**

**PWS! / Dewi Pws**
O-pws unigryw: caneuon, cerddi, adroddiadau, cartwnau, darlithoedd! **£3.50**

**DIWRNOD GOLCHI / Angharad Tomos**
Y *seithfed* yng Nghyfres Rwdlan! **95c**

. . . a LOL Rhifyn y Briodas Vrenhinol. **65c**



*Allan yn ddiweddar:*

**Y CARLWM**
Nofel gan Judith Maro. **£3.95**

**DEWCH I CHWARAE RYGBI**
Alun Wyn Bevan a Mel Morgans. **£1.85**

**CLIFF PREIS— DARLITHYDD COLEG**
Nofel gan Tim Saunders. **£3.45**

*Ein catalog rhad, 48-tudalen ar gael gyda throad y post*



Y Lolfa
TALYBONT / DYFED SY24 5HE
ffôn 097086 / 304